**ADRODDIAD I'R CABINET**
**Hydref 9fed, 2012**

**Aelod Cabinet:** Y Cyng. Sian Gwenllian – Aelod Cabinet Addysg a Plant a Phobl Ifanc

**Pwnc:** Cynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

## Y penderfyniad a geisir/ Pwrpas yr adroddiad

Argymhellir y dylai'r Cabinet dderbyn y cyfeiriad sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad hwn gan nodi cynnwys y Cynllun Blaenoriaethau sydd yn cynnwys materion penderfynwyd arnynt eisoes, ac yn ychwanegol;

i. Penderfynu blaenoriaethu adolygiad o ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Y Groeslon, i gynnwys Carmel a Bronyfoel (Fron).
ii. Penderfynu bwrw mlaen a symud trafodaeth sefyllfa ysgolion Meirionnydd gan adrodd ymhellach ar fanylion y cynllun i'r Cabinet
iii. Penderfynu cynnal gwaith ymchwil i sefyllfa llefydd gweigion yn ysgolion y sir ac ystyried cynlluniau i leihau llefydd gweigion

---

## Sylwadau Aelodau Lleol

Bydd Aelodau Lleol perthnasol wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod y Cabinet

---

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Yn ystod cyfnod y Cyngor diwethaf datblygwyd Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion – '*Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*'[1] gan Weithgor trawsbleidiol. Yn Ebrill 2009, cefnogwyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor Llawn gan osod gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion clir ar gyfer y gwaith o adolygu trefniadaeth ysgolion y Sir. Yna, wedi cyfnod o weithredu'r strategaeth fe'i hadolygwyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 16 Rhagfyr 2010, ac o ganlyniad gwnaethpwyd rhai newidiadau i weithrediad y Strategaeth.

1.2 Yn ystod yr un cyfnod, datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth, '*Rhaglen Strategol - Tuag at 2025*'[2] gan y Cyngor Llawn ar 21 Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen hon fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun polisïau a

[1] Atodiad 1 - '*Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*'
[2] Atodiad 2 – '*Rhaglen Strategol – Tuag at 2025*'

chynlluniau sydd ar y gweill - yn lleol ac yn genedlaethol - i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

1.3 Mae'r achos dros newid yng nghyfundrefn addysg Gwynedd yn glir. Dyma rai o'r penawdau:

- Yr angen i sicrhau fod plant a phobl ifanc y Sir yn derbyn profiad addysg o'r radd flaenaf a hynny mewn amgylchedd dysgu derbyniol i ddysgwyr ac addysgwyr yr unfed ganrif ar hugain.
- Mae **nifer disgyblion cynradd y Sir wedi lleihau 25% ers 1975** (2,750 yn llai o ddisgyblion)
- Mae **28% o lefydd gweigion** o fewn ysgolion Gwynedd, **y ganran uchaf yng Nghymru**. Golyga hyn fod dros 6,400 o lefydd gweigion yn ein hysgolion sydd yn golygu fod adnoddau yn cael eu gwario pob blwyddyn ar gynnal adeiladau a chyfundrefnau aneffeithlon yn hytrach nag ar addysg plant a phobl ifanc y Sir.
- Mae angen adolygu i sicrhau fod y nifer cywir a phriodol o ysgolion yn y mannau cywir o fewn y Sir.
- **Mae 31 o ysgolion cynradd y Sir yn derbyn rhyngddynt £600k o gymorth ariannol ychwanegol oherwydd diffyg niferoedd disgyblion (blwyddyn ariannol 2012/13)**.
- Yng Nghymru dim ond 12 (5%) o ysgolion uwchradd sydd gyda **llai na 400** o ddisgyblion. O'r 12 yma **mae 6 ysgol uwchradd yng Ngwynedd gan gynnwys pob un o ysgolion uwchradd Meirionnydd.**
- Sylwadau a beirniadaeth rheoleiddwyr fel Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a Llywodraeth Cymru bod angen sicrhau fod y defnydd cywir a mwyaf effeithlon o adnoddau yn cael ei wneud er mwyn sicrhau ansawdd addysg plant a phobl ifanc nawr, ac i'r dyfodol.

1.4 Yn seiliedig ar y cyfeiriad strategol y cytunwyd arno, aethpwyd ati i weithredu rhaglen o drawsnewid. Yn gryno, dyma ddeilliannau'r cynlluniau hyd yma:

- Mae trafodaethau ar ddyfodol trefniadaeth ysgolion wedi eu cynnal yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn (Bala) a rhan o ddalgylch Y Gader (Dolgellau).
- Mae'r trafodaethau hyd yma wedi cwmpasu **21 o ysgolion**.
- Mae'r Cyngor **wedi sicrhau y bydd addysg wledig yn cael ei gynnal** yn ardaloedd Tywyn, Dolgellau a'r Bala mewn ysgolion hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol.
- Bydd **ysgolion gwledig a threfol** yn yr ardaloedd hyn **yn cael eu huwchraddio**
- Mae cynlluniau arloesol ar droed sydd **yn torri tir newydd** (datblygir sefydliadau addysg gydol oes yn Bala a Dolgellau, a sefydlir Ysgolion Ardal Gwledig – ac un o'r rheiny ar ddau safle).
- Bydd y cynlluniau o fewn y Cynllun Blaenoriaethau yn arwain at **fuddsoddiad o £44miliwn i wella a datblygu ysgolion**. Bydd pob ymdrech i gadw'r budd yn lleol drwy brosesau caffael er mwyn rhoi cyfle i gontractwyr lleol elwa o'r buddsoddiad.

## 2. CYD-DESTUN / YSTYRIAETHAU PELLACH

2.0.1. Mae cyd-destun deddfwriaethol a strategol cenedlaethol a lleol i'r cynllun trawsnewid yma. Yn y rhan yma eglurir y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo.

## 2.1 Cyd-destun Strategol Cenedlaethol

2.1.1. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi dyhead i wella safonau ac effeithlondeb y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Wedi cyhoeddi Adroddiad Pisa (Rhagfyr 2010) sydd yn cymharu perfformiad a safonau addysg ar draws nifer fawr o wledydd, bu cryn sylw i rai o wendidau'r system yn genedlaethol yng Nghymru. Er bod perfformiad disgyblion yng Ngwynedd yn parhau i fod gyda'r uchaf yng Nghymru, rydym yn benderfynol o wella ymhellach gyrhaeddiad addysgol a dysgu plant a phobl ifanc mewn nifer o feysydd gwahanol, ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol. Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar leihau'r gwahaniaethau mewn perfformiad o fewn ysgolion a rhwng ysgolion, ac yn sgil hynny, codi lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol.

2.1.2. Yn ogystal, mae llawer o sylw diweddar ar leihau nifer llefydd gweigion yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn[3] sydd yn nodi;
"*Pan fydd lefelau uwch na'r angen o leoedd ysgol, mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon a gellid eu defnyddio yn well i wella ansawdd yr addysg ar gyfer pob dysgwr*".

2.1.3. Yna yn dilyn hynny, anfonwyd llythyr at holl Awdurdodau Cymru gan Y Gweinidog Addysg a Sgiliau[4]. Yng ngeiriau'r Gweinidog…"***mae pob lle gwag yn dreth ar bob un dysgwr***…".

2.1.4. Yn y llythyr mae'r Gweinidog yn nodi yn glir ei ddisgwyliad fod pob awdurdod sydd â mwy na 20% o lefydd gwag yn y sector cynradd neu uwchradd yn nodi pa gamau y bwriedir eu cymryd i leihau'r lefel yn is na 15% erbyn Ionawr 2015.

2.1.5. Mae Estyn a'r Llywodraeth wedi mynegi pryder am y defnydd aneffeithiol o adnoddau. Yn ôl Estyn, mae pob lle gwag yn adlewyrchu hyn drwy wario ar gynnal cyfundrefnau (dyblygiadau gweinyddol a rheolaethol, a chostau cynnal adeiladau a systemau ayb), yn hytrach nag yn uniongyrchol ar addysg ein plant a phobl ifanc.

2.1.6. Yng Ngwynedd mae'r ganran uchaf o leoedd gweigion yng Nghymru (ac yn bedwerydd o ran nifer – dros 6,400).

2.1.7. Lluniwyd ymateb gan Aelod Cabinet Addysg Gwynedd i'r her yma[5]. Cydnabuwyd bod gan Wynedd gyfraniad i'w wneud o ran lleihau llefydd gweigion o fewn ysgolion y Sir. Ond, nodwyd yn glir fod ymateb i'r her o fewn cyd-destun darparu addysg mewn ardal wledig fel Gwynedd yn hynod o anodd oherwydd pellteroedd teithio a dyraniad poblogaeth, a bod angen adnoddau cyfalaf i wireddu cynlluniau i leihau llefydd gweigion. Gwnaethpwyd yn glir mai un ffactor a ystyrir ydyw llefydd gweigion, a bod llu o ffactorau eraill yn cael eu hystyried wrth lunio argymhellion ar gyfer sefyllfaoedd yng Ngwynedd.

[3] Atodiad 3 – Adroddiad Estyn Mai 2012 - '*Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion'*
[4] Atodiad 4 – Copi o lythyr y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar yr angen i leihau llefydd gweigion
[5] Atodiad 5 – Copi o lythyr yr Aelod Cabinet yn ymateb i lythyr Gweinidog Addysg a Sgiliau

2.2 Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (Rhaglen Ysgolion 21G)

2.2.1. Yn ystod 2009 cyhoeddwyd rhaglen newydd gan y Llywodraeth ar gyfer uwchraddio holl ysgolion Cymru dan faner Rhaglen *Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain*. Mae'r rhaglen newydd yn uno holl grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru dan un rhaglen fuddsoddi.

2.2.2. Cafwyd datganiad gan Weinidog y Llywodraeth ar 5 Rhagfyr 2011 yn nodi pa gynlluniau o'r rhai gyflwynwyd gan Wynedd a fu yn llwyddiannus. ***Cyhoeddwyd fod Cyngor Gwynedd, mewn egwyddor, wedi llwyddo i sicrhau amlen fuddsoddi gwerth mwy na £36 miliwn*** yn ychwanegol i'r buddsoddiad a ddenwyd drwy ffynonellau trosiannol. Nodir mai'r cynlluniau canlynol fu'n llwyddiannus ar y cam cyntaf;

| CYNLLUN | COST Y CYNLLUN (Amcangyfrif) |
|---|---|
| Dalgylch Y Berwyn | £10.27m |
| Rhan o ddalgylch Y Gader | £3.60m |
| Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig | £12.40m |
| Ardal Y Groeslon | £4.84m |
| Glancegin | £5.11m |
| **CYFANSWM** | **£36.22m** |

2.2.3. Bydd gwaith pellach i'w wneud i ddenu'r arian yma gan y Llywodraeth, a bydd angen sicrhau achosion busnes cadarn sydd yn dangos fod y buddsoddiad yn; cwrdd ag anghenion strategol, rhoi gwerth am arian, ac yn welliant ar unrhyw sefyllfa bresennol. Mae'r Llywodraeth wedi awgrymu yn gryf mai cyfyng fydd y cyfleoedd pellach i ddenu cyfalaf am rhai blynyddoedd (hyd at oddeutu 2017/18).

2.3 Cyd-destun Deddfwriaethol

2.3.1. Yn dilyn adolygiad o'r ddeddf bresennol, mae *Mesur Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)* wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y mesur yn ddeddfwriaeth yn ystod 2013. Mae'r Mesur yn edrych i symleiddio'r broses statudol o newidiadau trefniadaeth addysg ac hefyd symud grym penderfyniadau yn fwy lleol. Bydd angen ystyried y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ac ymateb yn briodol.

2.4 Cyd-destun Strategol Lleol

2.4.1. Fel cyd-destun strategol lleol, soniwyd eisoes am strategaeth '*Tuag at 2025*' a '*Strategaeth Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*'. Mae strategaethau a chynlluniau eraill o fewn Cynllun Strategol y Cyngor yn gyd-destun pwysig ar gyfer y maes yma, a dyma rai ohonynt;

- Prosiect Torri'r Cylch
- Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gydag ADY
- Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

2.4.2. Yn ogystal, ers yr etholiad ym Mai 2012 - mae'r Aelod Cabinet dros Addysg wedi amlinellu ei blaenoriaethau ac yn greiddiol yn hyn mae gweledigaeth a dyhead i greu cyfundrefn addysg fydd yn mynnu ansawdd i'r dyfodol. Cyflwynwyd y papur hwn gerbron

Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd Gwynedd ar 12 Gorffennaf 2012, Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 31 Gorffennaf 2012 a gerbron Fforwm Penaethiaid Cynradd y Sir.

2.5 Mae'r wybodaeth uchod yn gosod cyd-destun ar gyfer llunio Cynllun Blaenoriaethau rhaglen waith trefniadaeth ysgolion am y blynyddoedd nesaf.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.0.1. Felly, wrth ystyried cyfeiriad y strategaeth, y cyd-destun ehangach a'r hyn sydd wedi ei gyflawni'n barod, argymhellir rhai meysydd penodol i'w blaenoriaethu:

A) Cynlluniau arfaethedig sydd eisoes wedi eu penderfynu a chynlluniau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain,
B) Sefyllfa niferoedd disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd Meirionnydd,
C) Sefyllfaoedd argyfyngus
Ch) Sefyllfa llefydd gweigion

### 3.1 <u>Cynlluniau arfaethedig a chynlluniau Ysgolion 21G</u>

3.1.1. Fel y nodwyd, mae'r Cyngor wedi, neu wrthi'n mynd drwy'r, prosesau statudol ynglŷn ag ad-drefnu dyfodol darpariaeth mewn rhai ardaloedd. Yn ogystal, mae rhai cynlluniau penodol wedi eu hadnabod sydd i dderbyn buddsoddiad sylweddol drwy Raglen Ysgolion 21G.

3.1.2. Bydd angen sicrhau fod y cynlluniau hynny sydd eisoes wedi eu penderfynu yn cael eu gwireddu yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn a'r Gader.

3.1.3. Mae penderfyniad gan Gyngor Gwynedd i sicrhau cyfraniad yr Awdurdod tuag at y cynlluniau, ac mae'r Llywodraeth wedi nodi fod cynlluniau'r Cyngor wedi llwyddo yng ngham cyntaf y broses ariannu. Mae camau dilynol ar gyfer sicrhau cyfraniad Llywodraeth Cymru, a bydd angen dilyn rhaglen waith er mwyn gwneud hynny. Bydd camau cynhwysfawr a thrafodaethau i'w cynnal ar gyfer rhai o'r prosiectau mwyaf e.e. y Ganolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd a champws gydol oes yn Bala.

### 3.2 <u>Sefyllfa Niferoedd Disgyblion Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Meirionnydd</u>

3.2.1. Mae'r broses o ad-drefnu ysgolion wedi cychwyn yn nifer o ysgolion cynradd Meirionnydd, - dalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn ac Y Gader. Blaenoriaethwyd y dalgylchoedd hyn oherwydd sefyllfa fregus yr ysgolion cynradd. Fel y datblygodd y drafodaeth yn y dalgylchoedd hyn, penderfynodd Cyngor Llawn 16/12/2010 ymestyn adolygiad trefniadaeth darpariaeth addysg i gynnwys elfennau traws-sector – meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig a modelau gydol oes.

3.2.2. Mae trafodaeth cychwynnol ynglŷn â sefyllfa ysgolion uwchradd Meirionnydd wedi ei chynnal mewn fforymau gwleidyddol yn ystod y Cyngor diwethaf a gan Benaethiaid Uwchradd yr ardal, a chafwyd consensws fod rhaid cynnal trafodaeth pellach ynglŷn â'r sefyllfa. Mae pryder ynglŷn â niferoedd gostyngol disgyblion cynradd ac uwchradd yn yr ardal. Cynhaliwyd trafodaethau fel a ganlyn:

- Gweithdy gydag Aelodau Meirionnydd -15 Gorffennaf 2011
- Adroddiad yn dilyn y Gweithdy i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc - 22 Medi 2011

- Adroddiad ar dueddiadau demograffig i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc - 9 Rhagfyr 2011
- Bu trafodaethau yn y cyfnod hwn yng Ngweithgor Trawsbleidiol Ad-drefnu Ysgolion yn ogystal

3.2.3. Yn sgil canfyddiadau gwaith cynnar a dyhead Aelodau Lleol Meirionnydd i fwrw mlaen a'r mater yma, mae angen cynnal adolygiad a thrafodaeth ar ddyfodol addysg ym Meirionnydd er mwyn adeiladu ar y gwaith trawsnewidiol sydd eisoes wedi cychwyn yn yr ardal.

## 3.3 <u>**Sefyllfaoedd Argyfyngus**</u>

3.3.0.1. Nodwyd yn y Strategaeth *'Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* fod angen sicrhau modd i fedru rhoi sylw i sefyllfaoedd rhai ysgolion sydd yn fregus:
*"Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth)".*

Bellach, mae wedi amlygu fod dau gategori penodol o sefyllfaoedd argyfyngus sydd angen sylw; sefyllfaoedd argyfyngus oherwydd cyflwr adeiladau ac addasrwydd adeiladau a sefyllfaoedd sy'n fregus oherwydd niferoedd isel

3.3.1. <u>Cyflwr/Addasrwydd Adeiladau</u>

3.3.1.1. Mae'r Strategaeth yn nodi'r angen i sicrhau'r hyblygrwydd i gychwyn trafodaeth oherwydd bod angen buddsoddi yn sylweddol i wella'r ddarpariaeth addysg mewn ardal benodol. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn cael eu hadnabod drwy arolygon cyflwr ac addasrwydd trwy Wasanaeth Eiddo'r Cyngor.

3.3.1.2. Un sefyllfa sydd eisoes wedi ei hamlygu gan y Cyngor (cyfarfod 16/12/2010) yw sefyllfa cyflwr adeilad Ysgol Y Groeslon. Oherwydd cyflwr rhan o adeilad yr ysgol bu yn rhaid trefnu mesurau eraill i ddarparu addysg yno o fis Medi 2012 ymlaen ac mae yn rhaid blaenoriaethu sylw i'r sefyllfa hon.

3.3.1.3. Yn y gorffennol cyflwynwyd cais ariannol i Llywodraeth Cymru am arian i adeiladu ysgol newydd yn Y Groeslon ond bu'n aflwyddiannus gan nad oedd y cynllun busnes yn ymateb i anghenion strategol ehangach.

3.3.1.4. Er mwyn sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol ar gael o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain – bydd angen sicrhau fod cynllun busnes cadarn yn cael ei ddatblygu sydd yn dangos fod y Cyngor yn ymateb yn strategol i ddarpariaeth anghenion yr ardal i'r dyfodol. Felly, bydd yn rhaid sefydlu panel adolygu lleol i drafod dyfodol darpariaeth addysg yn yr ardal.

3.3.2. <u>Diffyg Niferoedd</u>

3.3.2.1. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae rhai plant, staff a thrigolion Gwynedd wedi wynebu sefyllfaoedd heriol ble mae nifer disgyblion sy'n mynychu ysgol wedi disgyn i

lefelau isel iawn. Gall nifer disgyblion mewn ysgol ddisgyn mor isel nes ystyrir yn sefyllfa argyfyngus. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid ystyried tegwch i'r disgyblion a'r staff. Rhaid ystyried bod adnoddau ysgol yn gyfyngedig a ddaw'n anodd i un athro/athrawes arwain a sicrhau darpariaeth addas a phriodol o'r cwricwlwm cyfan.

3.3.2.2. Yn 2009 bu i Ysgolion Rhydyclafdy, Llawrybetws a Croesor gau oherwydd niferoedd isel iawn (cyn lleied â 4 o blant). Ym Mawrth 2011, bu i Ysgol Abergynolwyn gau ar ôl i niferoedd ddisgyn i 14 o ddisgyblion. Yn 2010 bu i ysgol arall gysylltu â'r Adran Addysg i geisio ymateb i sefyllfa niferoedd disgyblion isel. Pleidleisiodd y llywodraethwyr ar y pryd i barhau a'r sefyllfa am flwyddyn ychwanegol ac adolygu pryd hynny.

3.3.2.3. Mae'n bwysig felly fod gan y Cyngor weithdrefn i fynd i'r afael â'r ysgolion argyfyngus hynny mewn modd effeithiol a hyblyg. Mae'r hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn amserol i sefyllfaoedd fel hyn yn lleihau ansicrwydd i ysgolion, staff, disgyblion a rhieni. Nid yw gadael i ysgolion gau ohonynt eu hunain, gyda niferoedd disgyblion yn lleihau bob blwyddyn nes dod yn anghynaladwy yn dderbyniol. Bydd angen datblygu mecanwaith addas i fonitro ac asesu sefyllfaoedd ysgolion, gan ymateb yn briodol pan fydd niferoedd yn disgyn yn unol â'r hyn nodwyd mewn dogfen a baratowyd gan Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd y Sir;

*'Y mae ysgol sydd â llai na nifer penodol o blant a'i rhagolygon o safbwynt niferoedd yn isel, yn anghynaladwy. Wrth nodi hyn dylid ystyried cyd-destun ysgol yn ei hardal gan gynnwys a fyddai'r plant yn medru mynd i ysgol arall yn hwylus, llefydd gweigion a niferoedd staff. Cytunwyd bod ysgol sydd â llai nag ugain o ddisgyblion yn y categori yma'*[6].

3.4 <u>Yr Angen i Leihau Llefydd Gweigion</u>

3.4.1. Yn dilyn yr adroddiad gan Estyn (Mai 2012) a'r her ddilynol osodwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i leihau canran y llefydd gweigion yn ein hysgolion - rhaid cydnabod fod sefyllfa yng Ngwynedd na ellir ei hanwybyddu. **Yng Ngwynedd mae'r ganran uchaf o lefydd gweigion yn ysgolion trwy Gymru - 28%.**

3.4.2. O ran nifer, **mae hyn yn golygu fod dros 6,400 o lefydd gweigion o fewn ysgolion y Sir, allasai, yn ôl Estyn - arwain at aneffeithlonrwydd ariannol sylweddol.**

3.4.3. Mae'r Cyngor eisoes wedi cychwyn symud ymlaen i ymateb i'r her yma a bydd cynlluniau arfaethedig yn cyfrannu i leihau'r ganran Sirol. Er hyn, ar ôl gwireddu'r cynlluniau arfaethedig mae her bellach o leihau oddeutu 2,500 o lefydd gweigion er mwyn ymgyrraedd tuag at y targed cenedlaethol o 15%. Er bod adolygu trefniadaeth ysgolion yn heriol, yn ôl Estyn;
"***Gall cau ac uno ysgolion fod yn ymarferion anodd a hirfaith ond dyma'r enghreifftiau mwyaf effeithiol o strategaethau a fydd yn cael gwared ar leoedd dros ben ac yn rhyddhau arbedion ar gyfer ail-fuddsoddi i godi safonau***".

3.4.4. Gall rheoli lleoedd olygu ymdrech wrth sicrhau cydbwysedd o sicrhau digon o lefydd mewn ysgolion yn yr ardaloedd o dwf, a rhesymoli sefyllfaoedd sydd â llefydd gweigion. Mae cydnabyddiaeth ei bod yn afresymol disgwyl i leihau yr holl leoedd gwag yn yr

[6] Atodiad 7 – Dogfen Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd ar Ad-drefnu Ysgolion Cynradd

ysgolion. Mae dyletswydd i ddarparu digon o leoedd ysgol a'r angen i reoli amrywiadau yn y galw (canlyniad newidiadau demograffig a dewisiadau rhieni), mae angen mynd i'r afael â gormodedd o adeiladau gwag gan eu bod yn gallu clymu adnoddau y gellid eu defnyddio i wella'r ddarpariaeth addysgol.

3.4.5. Fel y nodwyd, mae'r Cyngor hwn wedi bod yn ystyried nifer fawr o ffactorau, yn cynnwys llefydd gweigion, wrth edrych i drawsnewid ei ddarpariaeth addysg mewn ardaloedd ar draws y Sir.

3.4.6. Mae rhaglen adeiladu Ysgolion 21G Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllunio strategol gan awdurdodau lleol er mwyn darparu adeiladau ysgol newydd neu well, gan leihau lleoedd gwag. Bydd cynigion ar gyfer buddsoddiad sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chapasiti gwag a chyflwr gwael adeiladau ysgol ac yn cynorthwyo i ddarparu ysgolion cynaliadwy, cost-effeithiol sy'n addas ar gyfer yr 21[ain] Ganrif.

3.4.7. Fodd bynnag, ar gyfer yr ardaloedd hynny nad ydynt eisoes wedi eu had-drefnu, neu wedi eu cynnwys yn rhaglen Ysgolion 21G bydd angen cymryd ymagwedd bragmatig, fwy creadigol, er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd aneffeithlon o adeiladau ysgol.

## 4. CASGLIADAU A CHAMAU NESAF

4.0.1. Felly, o ystyried y cyd-destun a'r cefndir a osodwyd yn yr adroddiad, mae'r pedwar maes blaenoriaeth uchod yn cael eu hamlygu. O fewn y pedwar maes mae prosiectau unigol sydd yn cwmpasu'r Cynllun Blaenoriaethau. Bydd adroddiad pellach ynglŷn a chapasiti i gyflawni'r rhaglen gynhwysfawr hon. Dyma fanylion y rhaglen waith am y cyfnod nesaf :

4.1 Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig

4.1.1. Nodwyd dyhead gan y Cyngor i ddiwygio ei ddarpariaeth Addysg Arbennig oherwydd bod y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Hafod Lon dros ei chapasiti ac angen ei moderneiddio a'i hymestyn. Cyflwynwyd cais ar gyfer y datblygiad yma yn rhan o becyn Rhaglen Ysgolion 21G y Cyngor.

4.1.2. Mae darpariaeth briodol ac addas ar gyfer Gogledd y Sir yn Ysgol Pendalar, Caernarfon, a bydd y datblygiad yma yn anelu i sicrhau darpariaeth debyg, mewn man canolog, ar gyfer gweddill y Sir. Y bwriad yw darparu canolfan rhagoriaeth ranbarthol Addysg Anghenion Arbennig ac i resymoli'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u lleoli allan o'r Sir ar hyn o bryd. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol wedi ei lleoli'n ganolog ar gyfer yr ardal mae'n ei gwasanaethu, ac nid yw'r cyfleusterau ynddi chwaith ddim yn cwrdd ag anghenion addysgol modern.

4.1.3. Er mwyn symud ymlaen â'r datblygiad hwn, argymhellir sefydlu Tîm Prosiect yn ystod Tymor yr Hydref i yrru'r prosiect ymlaen. Mae'r prosiect werth oddeutu £12.5miliwn.

4.2 Sefyllfaoedd Argyfyngus – Cyflwr Adeiladau – Adolygu a gwella darpariaeth addysg yn ardal Y Groeslon a datblygiad adeilad newydd ar gyfer Ysgol Glancegin

4.2.1. Mae'r Cyngor wedi bod yn monitro cyflwr rhan o adeilad Ysgol Y Groeslon ers peth amser. Caewyd cegin yr ysgol rhai blynyddoedd yn ôl, ac yn ddiweddar bu'n rhaid darparu addysg mewn unedau symudol ar gyfer rhai o'r disgyblion.

4.2.2. Gwnaethpwyd cais yn 2010 am arian o Raglen Cyfalaf Trawsffurfio Ton 3 (Tranche 3) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu ysgol newydd yn Y Groeslon. Bu'r cais yn aflwyddiannus, a barnwyd gan Lywodraeth Cymru nad oedd cyflwr yr adeilad ynddo ei hun yn ddigonol er mwyn rhyddhau'r arian. Roedd angen i'r cais fod ynghlwm wrth gynllun strategol ar gyfer darparu addysg mewn ardal er mwyn ymateb i ofynion strategol. Yn yr un modd ni fyddai modd i'r Cyngor edrych i wario ar un ysgol heb edrych ar sefyllfa yn ehangach.

4.2.3. Felly, yn unol â'r Strategaeth a phenderfyniad blaenorol gan y Cyngor Llawn (16/12/2010), oherwydd cyflwr bregus adeilad Ysgol Y Groeslon, a'r arweiniad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn a chymorth ariannu, bydd angen blaenoriaethu trafodaethau lleol, a sefydlu Panel Adolygu ar gyfer yr ardal. Bydd angen symud mlaen gyda thrafodaethau i ddatblygu darpariaeth addysgol gyda chymorth y grant gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor ar y cyd.

4.2.4. Er mwyn gwneud hyn rhaid diffinio ardal benodol er mwyn mynd â'r drafodaeth hon yn ei blaen. Nid oes angen cynnal trafodaeth dalgylch gyfan Dyffryn Nantlle ar hyn o bryd gan fod y dalgylch yn ei chyfanrwydd yn isel o ran trefn blaenoriaeth. Yn wir, byddai cynnal trafodaeth dalgylch cyfan yn cymeryd llawer mwy o amser, a byddai hynny yn rhwystr i symud ymlaen yn ddi-oed gydag unrhyw opsiwn. Wrth ddiffinio'r ardal, ystyriwyd nifer o ffactorau.

4.2.5. Mae ardal Carmel a'r Fron yn ddaearyddol agos i'r Groeslon a hynny o fewn dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle. Mae daearyddiaeth a dalgylch naturiol yr ardal yn ei diffinio ei hunan. Ond, mae ffactorau eraill sydd yn cryfhau'r rhesymeg ymhellach.

4.2.6. Mae nifer arwyddocaol o lefydd gweigion yn y tair ysgol:

| **Ysgol** | Niferoedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Disgyblion Medi 2011** | **Capasiti'r Ysgol** | **Nifer Lle Gwag** | **Canran Lle Gwag** |
| **Groeslon** | 84 | 128 | 44 | **34%** |
| **Carmel** | 47 | 78 | 31 | **40%** |
| **Bronyfoel** | 30 | 52 | 22 | **42%** |
| **Cyfanswm** | 161 | 258 | 97 | |

O ran nifer – mae hyn gyfystyr â bron iawn i 100 o lefydd gweigion (97).

4.2.7 Mae tua £3,000 (£2,958) o wahaniaeth yng nghost y pen rhwng y 3 ysgol - mae anghyfartaledd yn hyn o beth mewn cwta 2 filltir o bellter.

4.2.8 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddarbodus gan sicrhau cynaladwyedd ysgolion yn unol â'r Strategaeth. Er mwyn sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau rhaid cymeryd y cyfle i ystyried yr opsiynau fydd yn sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy a chadarn i'r dyfodol a hynny o fewn fframwaith y Strategaeth.

4.2.9 Drwy ddiffinio'r ardal yn y modd yma felly, mae gan y Cyngor gyfle;

A) I ddenu cyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cymru

B) Gwireddu nifer o ddyheadau'r strategaeth drwy gael llawer gwell effaith ar:
- Gysoni maint dosbarthiadau a lleihau'r amrediad oedran sydd mewn dosbarthiadau
- Ymateb i'r her yn y newid poblogaeth fydd yn debygol o ddigwydd i'r dyfodol
- Gwella amgylchedd dysgu i fwy o ddisgyblion gan sicrhau ysgol fyddai'n gallu diwallu anghenion ysgolion yr 21G
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
- Sicrhau adnodd newydd, addas i bwrpas a chynaliadwy
- Lleihau amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn yr ardal
- Cysoni nifer o ysgolion yn yr ardal i gyd fynd â'r galw
- Rhyddhau arian i'w wario ar blant yn y gyfundrefn addysg yn hytrach nag ar adeiladau a chynnal yr isadeiledd bresennol
- Lleihau llefydd gweigion sylweddol sydd yn yr ysgolion gan gynyddu effeithiolrwydd

4.2.10 Bwriedir felly, cynnal trafodaeth ar ddyfodol darpariaeth addysg gynradd yn ardal pentrefi - Y Groeslon, Carmel a'r Fron. Bydd panel o gynrychiolwyr o ysgolion Y Groeslon, Carmel a Bronyfoel yn cael ei ffurfio i drafod y mater.

4.2.11 Fel rhan o'r cais ariannol o'r Rhaglen Ysgolion 21G, llwyddwyd i agor y drws i ddenu'r buddsoddiad ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Glancegin. Mae adeilad yr ysgol yma mewn cyflwr gwael. Ni fydd angen cynnal adolygiad llawn o'r dalgylch cyfan yn ardal ehangach Bangor. Yn unol â'r Strategaeth mae angen datblygu cynllun ar gyfer darparu addysg ym Maesgeirchen oherwydd cyflwr bregus yr adeilad.

4.2.12 Bydd cryn waith angen ei wneud cyn y bydd yr ysgol newydd yn cael ei datblygu. Bydd angen datblygu cynllun busnes cadarn, a datblygu cynlluniau ategol fydd yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn a'r teulu fydd yn cyd-fynd efo'r datblygiad adeiladol. Y gobaith ydy y bydd modd dod â buddion ehangach i'r gymuned hon drwy'r datblygiad a manteisio ar brofiadau a datblygiadau fu ynghlwm wrth ddatblygu Ysgol Yr Hendre yng Nghaernarfon.

4.2.13 Er mwyn gwneud y gwaith bydd angen sefydlu Tîm Prosiect yn y blynyddoedd nesaf, gyda'r pwyslais ar weithio gyda phrosiectau cymunedol a theuluol. Yn ychwanegol i'r buddiannau hyn, bydd modd dileu nifer fawr o lefydd gweigion sydd yn yr ysgol.

4.3 Cynlluniau Ar y Gweill

4.3.1 Mae nifer o gynlluniau ar droed yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn a'r Gader yn barod. Bydd angen sicrhau fod y cynlluniau hynny yn cael eu gwireddu yn unol â phenderfyniadau a wnaethpwyd eisoes, ac yn unol â phenderfyniadau arfaethedig.

4.3.2 Cynlluniau sydd eisoes wedi eu penderfynu arnynt yn derfynol ac angen eu gweithredu:

- Datblygu a sefydlu Ysgol Ardal ym Mro Dysynni a chau ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril
- Datblygiad Ysgol Penybryn, Tywyn a chau Ysgol Aberdyfi
- Gwelliannau gweddill dalgylch Tywyn a sefydlu Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dulas a Pennal
- Datblygiad Ysgol OM Edwards a chau Ysgol Y Parc

4.3.3 Cynlluniau ble disgwylir am benderfyniad arfaethedig neu ble bo trafodaethau pellach i'w gwireddu:

- Sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy a chau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Machreth ac Ieuan Gwynedd (yn amodol ar benderfyniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau)
- Symud ymlaen â thrafodaethau sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes yn Nolgellau
- Parhau â thrafodaethau sefydlu Campws Gydol Oes yn Bala a chau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid
- Gwelliannau ysgolion Bro Tryweryn a Ffridd Y Llyn

4.4 Sefyllfaoedd Bregus - Niferoedd Isel Mewn Ysgolion

4.4.1 Nodwyd ynghynt yn yr adroddiad fod plant, staff a rheini rhai o ysgolion yn y Sir wedi wynebu sefyllfaoedd heriol ble mae niferoedd disgyblion yn disgyn i lefel isel iawn. Gall niferoedd ysgol ddisgyn mor isel nes eu hystyried fel sefyllfa argyfyngus. Mewn sefyllfa o'r fath rhaid ystyried tegwch i ddisgyblion a staff.

4.4.2 Felly, bydd angen datblygu mecanwaith addas i fonitro ac asesu sefyllfaoedd ysgolion, gan ymateb yn briodol pan fydd niferoedd disgyblion yn disgyn i lefel fregus. Bydd angen ystyried sefyllfaoedd bregus sydd yn codi mewn ysgolion unigol, gan gynnal trafodaethau priodol i geisio dod ag atebion cynaliadwy a rhoi sicrwydd i addysg y disgyblion.

4.5 Llefydd Gweigion

4.5.1 Fel rhan o'r rhaglen waith i ymateb i her y Llywodraeth i leihau llefydd gweigion bydd angen cynnal arolwg o wir ddarlun llefydd gweigion yn ysgolion y Sir. Bwriedir llunio rhaglen waith o gamau syml, ymarferol y gellid eu cymryd i ostwng nifer y llefydd gweigion ar draws y Sir:

- Ail ymweld â chapasiti ysgolion i weld beth yw gwir ddefnydd yr adeiladau a chyfrifo llefydd gweigion yn fwy manwl fel gwaelodlin.
- Adnabod ysgolion sydd â llefydd gweigion "sylweddol" gan flaenoriaethu'r sefyllfaoedd hyn
- Rheoli'r gyfundrefn mynediad i sicrhau bod agweddau capasiti yn cael sylw priodol
- Bydd angen cymryd ymagwedd bragmatig, fwy creadigol, er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd aneconomaidd o adeiladau ysgol gan edrych ar ddefnydd amgen o

ystafelloedd/adeiladau a bod yn effro i gyfleon i wneud defnydd mwy effeithlon o adeiladau ysgolion.

4.6 Rhan Orllewinol o Ddalgylch Y Gader

4.6.1 Fel y nodwyd, mae trafodaethau ar y gweill yn nalgylch Y Gader, a bydd angen dychwelyd i ran orllewinol y dalgylch i edrych ar y modd gorau o ddarparu addysg yn yr ardal i'r dyfodol. Rhagwelir cynnal y drafodaeth yma o fewn tymor canolig y rhaglen waith.

4.7 Darpariaeth Addysg ym Meirionnydd

4.7.1 Mae pryder gwirioneddol ynglŷn â sefyllfa'r ddarpariaeth addysg ym Meirionnydd. Yn wir, yn unol â'r Strategaeth gynradd, dalgylchoedd yr ardal yma a flaenoriaethwyd oherwydd fod y sefyllfa yn fregus yn sgil nifer o ffactorau sydd yn cynnwys; lleihad mewn niferoedd disgyblion, cyflwr adeiladau a phroblemau recriwtio penaethiaid.

4.7.2 Nodwyd fod trafodaeth a gwaith cychwynnol eisoes ar droed i edrych ar ddyfodol darpariaeth addysg uwchradd ym Meirionnydd sydd yn cwmpasu ysgolion uwchradd Tywyn, Y Berwyn (Bala), Y Gader, Y Moelwyn (Blaenau Ffestiniog) ac Ardudwy (Harlech). Yn wir, mewn dwy ddalgylch, mae'r drafodaeth ar y sector cynradd wedi ymestyn i gynnwys yr uwchradd yn nalgylchoedd y Berwyn a'r Gader. Ond, cydnabyddir bod sefyllfa'r ddarpariaeth addysg uwchradd yn ardal Meirionnydd angen sylw penodol yn fuan. Dyma rai ffeithiau ynglŷn â'r sefyllfa:

- Ers 1975 mae oddeutu 1000 yn llai o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd.
- O ran cymhariaeth genedlaethol, maint cyfartalog ysgol uwchradd yng Nghymru yw 900 o ddisgyblion – tra bod cyfartaledd maint ysgol uwchradd ym Meirionnydd yn 350.
- Mae rhagolygon yn dangos fod y tueddiad yma o leihad am barhau eto am oddeutu 10 mlynedd – gyda rhagolygon o gyfanswm o oddeutu 1400 o ddisgyblion rhwng y 5 ysgol ym Meirionnydd erbyn 2020. Gall rhai ysgolion uwchradd Meirionnydd fod mor fach â 240(au) erbyn diwedd y ddegawd hon.
- Mae cyfartaledd llefydd gweigion yn ysgolion uwchradd Meirionnydd yn 44%, o gymharu â chyfartaledd Gwynedd yn 30% a Chymru yn 15%.
- Mae'r lleihad mewn niferoedd – ynghyd â'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn golygu ei bod yn her medru cynnal digon o gynhwysedd addysgol i ddarparu'r cwricwlwm.
- Mae pryderon ynglŷn â chynaladwyedd cynnal safonau o fewn y fframwaith addysgol presennol.

4.7.3 Bydd rhaid cynnal trafodaeth ar ddyfodol addysg yn ei gyfanrwydd gyda'r nôd o sicrhau dyfodol cynaliadwy i addysg yr ardal. Argymhellir cynnal gweithdy i Aelodau Meirionnydd i ailgynnau'r trafodaethau, a symud y mater yn ei flaen i drafod y cyfeiriad gorau ar gyfer darparu addysg yn yr ardal i'r dyfodol.

## 5 Crynodeb

5.1 O fewn y rhaglen drawsnewidiol yma yn narpariaeth addysg Gwynedd, mae nifer o brosiectau a chynlluniau o bwys. Mae'r rhain yn ategu ei gilydd ac yn cyfrannu tuag at yr her o sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle a phrofiadau gorau i'n plant a phobl ifanc, a hyn er mwyn gwireddu eu potensial i'r dyfodol a hynny drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym. Bydd adroddiadau pellach i ddilyn ar faterion penodol yn unol â cherrig milltir y prosiectau unigol.

5.2 I grynhoi felly, nodir isod penawdau y Cynllun Blaenoriaethau:

i. Adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Y Groeslon, i gynnwys Carmel a Bronyfoel (Fron).

ii. Gwireddu cynlluniau y penderfynwyd yn derfynol arnynt eisoes yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn, sef;
   - Datblygu, adeiladu a sefydlu Ysgol Ardal ym Mro Dysynni a chau ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril
   - Datblygiad Ysgol Penybryn, Tywyn a chau Ysgol Aberdyfi
   - Gwelliannau gweddill dalgylch Tywyn a sefydlu Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dulas a Pennal
   - Datblygiad Ysgol OM Edwards a chau Ysgol Y Parc

iii. Rhoi cynllun a rhaglen waith fanwl mewn lle ar gyfer datblygu'r Ganolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig.

iv. Cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth addysg gynradd ac uwchradd ym Meirionnydd.

v. Datblygu mecanwaith a chymeryd camau priodol mewn sefyllfaoedd ysgolion sydd yn fregus oherwydd eu niferoedd isel.

vi. Symud ymlaen â thrafodaethau a chynlluniau yng ngweddill dalgylchoedd Y Berwyn ac Y Gader;
   - Sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy a chau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Machreth ac Ieuan Gwynedd (yn amodol ar benderfyniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau)
   - Symud â thrafodaethau sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes yn Nolgellau
   - Adolygu'r ddarpariaeth addysg yng ngorllewin dalgylch Y Gader
   - Symud â thrafodaethau a datblygu cynlluniau sefydlu Campws Gydol Oes yn Bala a gwelliannau yn ysgolion Bro Tryweryn a Ffridd Y Llyn

vii. Gwneud gwaith ymchwil i sefyllfa llefydd gweigion yn ysgolion y sir ac ystyried cynlluniau i leihau llefydd gweigion.

viii. Symud ymlaen â thrafodaethau a datblygu cynlluniau i adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Glancegin.

## 6. Argymhelliad

6.1 Argymhellir y dylai'r Cabinet dderbyn y cyfeiriad sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad hwn gan nodi cynnwys y Cynllun Blaenoriaethau sydd yn cynnwys materion penderfynwyd arnynt eisoes, ac yn ychwanegol;

i. Penderfynu blaenoriaethu adolygiad o ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Y Groeslon, i gynnwys Carmel a Bronyfoel (Fron).
ii. Penderfynu bwrw mlaen a symud trafodaeth sefyllfa ysgolion Meirionnydd gan adrodd ymhellach ar fanylion y cynllun i'r Cabinet
iii. Penderfynu cynnal gwaith ymchwil i sefyllfa llefydd gweigion yn ysgolion y sir ac ystyried cynlluniau i leihau llefydd gweigion

---

### Barn Y Swyddogion Statudol

### Y Prif Weithredwr:

1. Rwyf yn croesawu yr hwylustod o gael holl gynlluniau moderneiddio trefniadaeth ysgolion mewn un ddogfen a'r wybodaeth ynglŷn ag effaith y cynlluniau ar ardaloedd gwahanol i'r tymor canolig.

2. Mae'r argymhellion yn adlewyrchu'r camau pellach sy'n angenrheidiol i gyflawni penderfyniadau sydd eisoes wedi cael sylw'r Cyngor. Mae sefyllfa benodol cynaladwyedd Addysg uwchradd Meirionnydd yn fater o bryder sylweddol ac mae'n bwysig bod Aelodau a swyddogion yn cefnogi'r Aelod Cabinet i gyfarch y broblem mewn ffordd greadigol ac effeithiol

### Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad amserol o sefyllfa yr amryw faterion sydd ar y gweill ym maes trefniadaeth ysgolion ynghyd a chamau gweithredol. Wrth i'r gwaith fynd ymlaen bydd angen cymhwyso gofynion cyfreithiol i'r cynllunio a phenderfyniadau. Dim sylwadau ychwanegol o safbwynt priodoldeb ar hyn o bryd."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Rwy'n cefnogi'r bwriad i ad-drefnu ysgolion mewn modd teg a rhesymegol, er gwaetha'r her o ymdrechu i gyflawni'r amcanion yma mewn cyd-destun ariannol hynod heriol. Mae'r adroddiad yn adnabod sawl ardal lle mae risgiau wrth oedi a byddai buddion wrth symud ymlaen.

Byddwn yn pwyso a mesur y risgiau wrth ddadansoddi a sylwebu ar ardrawiad ac ymhlygiadau ariannol yr opsiynau unigol wrth i'r tîm prosiect ddatblygu'r cynlluniau perthnasol, fel ddigwyddodd yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn a'r Gader lle bu penderfyniadau eisoes."

---

# NEWYDDLEN – CANOLFAN RHAGORIAETH ADDYSG ARBENNIG

Addysg

CYNGOR GWYNEDD Mehefin 2013

## Y stori hyd yn hyn

Yn dilyn cais am arian Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif derbyniodd Cyngor Gwynedd gadarnhad yn Rhagfyr 2011 bod Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo, mewn egwyddor, i gyd-ariannu sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yng Ngwynedd. Mae'r cais hwn yn golygu buddsoddiad o £12.4 miliwn i sefydlu darpariaeth fodern o'r ansawdd orau ar gyfer plant gydag anghenion addysg arbennig a'u teuluoedd yn Meirionnydd a Dwyfor.

Bellach mae bwrdd prosiect wedi ei sefydlu ac wedi bod yn brysur yn adnabod anghenion y Ganolfan newydd a chynllunio'r camau sydd angen eu cyflawni er mwyn dilyn y drefn statudol a chwblhau'r hyn sy'n ofynnol i sicrhau derbyn y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae Adran Gofal Cwsmer y Cyngor hefyd wedi bod yn brysur yn ceisio adnabod safle addas ar gyfer y Ganolfan sydd digon mawr, mewn lle i allu darparu ar gyfer Meirionnydd a Dwyfor a chyda mynediad hwylus i'r prif ffyrdd. Erbyn hyn rydym wedi adnabod safle a allasai fod yn gartref addas ar ei chyfer. Rhaid pwysleisio fan hyn fod gwaith technegol manwl o'n blaenau i sicrhau fod y safle yn gweddu ym mhob ffordd cyn penderfynu'n derfynol ar y safle.

Dywedodd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet y Cyngor Dros Addysg:

"Wedi i ni edrych ar nifer o safleoedd, rydw i'n falch o gadarnhau fod swyddogion o adrannau Gofal Cwsmer ac Addysg y Cyngor wedi bod yn edrych ar safle 6.25 erw, neu 25,294m$^2$, o fewn Parc Busnes Eryri ym Mhenrhyndeudraeth.

"Llywodraeth Cymru sydd berchen y safle ar hyn o bryd ac rydym mewn trafodaethau gyda'n cydweithwyr o fewn y sefydliad hwnnw, ac yn cynnal gwaith ymchwil manwl ein hunain, er mwyn pwyso a mesur os ydyw'n safle addas ar gyfer y datblygiad pwysig hwn."

Ychwanegodd: "Er mwyn sicrhau fod yr ysgol newydd yn llwyddiannus – ac yn gallu darparu'r addysg, profiadau a'r ofal mae plant Gwynedd yn eu haeddu – rydym wedi gweithio allan y byddai rhaid i'r safle byddwn yn adeiladau arno fod o leiaf 4.95 erw, neu 20,000m$^2$ o faint ac efo cysylltiadau da i'r rhwydwaith trafnidiaeth.

"Dyna pam rydym wedi adnabod y safle yma fel man sydd gyda potensial ar gyfer ysgol arbennig newydd."

## Y camau nesaf

Nawr fod safle addawol posib ar gyfer y ganolfan newydd wedi ei adnabod mi fedr y Cyngor fwrw mlaen ar gamau nesa'r prosiect er mwyn anelu i sicrhau fydd Canolfan Ragoriaeth i Addysg Arbennig yn agor ei drysau i blant Meirionnydd a Dwyfor yn 2016.

Er mwyn sicrhau'r model orau ar gyfer y Ganolfan rydym am ymgysylltu gydag arbenigwyr ym maes addysg anghenion arbennig yn y trafodaethau. I'r perwyl hwn rydym wedi sefydlu gweithgor ac mi fyddwn yn cynnal cyfarfodydd dros y misoedd nesa i gytuno'r model orau. Y trafodaethau hyd fydd sail yr achos busnes cynhwysfawr y bydd rhaid i'r Cyngor ei gyflwyno er mwyn sicrhau arian o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru tuag at sefydlu'r Ganolfan newydd.

Ar yr un pryd mi fyddwn yn cychwyn trafod briff ar gyfer y Ganolfan gyda phensaer er mwyn cychwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Ganolfan bwysig hon.

Rydym yn awyddus iawn i gynnwys staff, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr, yn ogystal a buddiolwyr eraill, ar hyd y daith felly mae'n fwriad i'ch diweddaru'n aml a threfnu cyfarfodydd er mwyn derbyn eich mewnbwn i geisio sicrhau'r gorau i blant gydag anghenion addysg arbennig a'u teuluoedd ym Meirionnydd a Dwyfor.

Am mwy o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tim prosiect

drwy e-bost: CanolfanRhAA@gwynedd.gov.uk neu ffôn: 01286 679648

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# NEWSLETTER– CENTRE OF EXCELLENCE FOR SPECIAL EDUCATION

Addysg

GWYNEDD COUNCIL June 2013

## The story so far

Following an application for 21st Century Schools Programme funding, Gwynedd Council received confirmation in December 2011 that the Welsh Government's Department for Education and Skills has approved, in principle, to co-finance the establishment of a new Centre of Excellence for Special Education in Gwynedd. This application represents an investment of £12.4 million to establish a modern provision of the highest quality central to Meirionnydd and Dwyfor for children with special education needs and their families.

A project board has been established and has been busy recognising the needs of the new Centre as well as the steps that need to be implemented to follow the statutory procedures and complete what is required to ensure the funds are received from the Welsh Government.

The Council's Customer Care Department has also been busy trying to identify a suitable site for the Centre that is large enough, in a suitable location to cater for Meirionnydd and Dwyfor and with a convenient access to main roads We are pleased to announce that plans to establish the Centre are a step closer now as Gwynedd Council officers have identified a site that could be suitable for the Centre. It must be emphasized here that further detailed research is needed to ensure that the site is fit in all aspects before a final decision can be taken on the site.

Sian Gwenllian, the Council's Cabinet Member for Education said:

""Having looked at a number of sites, I'm delighted to confirm that officers from the Council's Customer Care and Education departments have been looking at a 6.25 acre site – or 25,294m$^2$ – in the Eryri Business Park at Penrhyndeudraeth.

"The land currently belongs to the Welsh Government and we are in discussions with our collegaues from that authority, as well as carrying out our own detailed background work, so that we can weigh up whether the site is suitable for this important development."

She added: "To ensure that this new school is successful – and can provide the education, experiences and care that children in Gwynedd who have special educational needs deserve – we have calculated that the site on which we will build needs to be at least 4.95 acres, or 20,000m$^2$ with good links to the local transport network.

"This is why we have identified this area as a potensial site for a new special school."

## The next steps

Now that a possible site for the new centre has been identified the Council can proceed with the next stages of the project to try to ensure that the Centre of Excellence for Special Education opens its doors to children living in Meirionnydd and Dwyfor in 2016.

In order to achieve the best model for the Centre we will engage with experts in the field of special education needs during our discussions. To this end we have established a working group and we will hold meetings over the coming months to agree on the best model. Outputs of these discussions will be the basis of a comprehensive business case which Gwynedd needs to present in order to secure funding from the Welsh Government's 21st Century Schools Programme towards establishing the new Centre.

At the same time we will begin discussing the brief for the Centre with an architect to start realising the vision for this important Centre. We are very keen to involve staff, parents, carers and governors, as well as other beneficiaries, along the way therefore it is our intention to update you regularly and arrange meetings in order to receive your input to try to ensure the best for children with special education needs and their families in Meirionnydd and Dwyfor.

For further information you can contact the project team

by e-mail: CanolfanRhAA@gwynedd.gov. uk or phone: 01286 679648

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# NEWYDDLEN – YSGOL ARBENNIG MEIRION DWYFOR

Addysg

CYNGOR GWYNEDD Rhagfyr 2013

Yn dilyn cais am arian Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif derbyniodd Cyngor Gwynedd gadarnhad yn Rhagfyr 2011 bod Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo, mewn egwyddor, i gyd-ariannu sefydlu Ysgol Addysg Arbennig newydd yng Ngwynedd. Mae'r cais hwn yn golygu buddsoddiad o £12.4 miliwn i sefydlu darpariaeth fodern o'r ansawdd orau ar gyfer plant gydag anghenion addysg arbennig dwys a chymhleth a'u teuluoedd yn Meirionnydd a Dwyfor.

## Cwestiynau ac atebion yn dilyn cyfarfodydd ymgysylltu

Yn ystod misoedd Hydref a Tachwedd cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr ysgolion yn ogystal â diwrnodau agored arbennig i siarad gyda rhieni a'r cyhoedd yn Nolgellau, Pwllheli, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.

Pwrpas y digwyddiadau hyn oedd diweddaru pawb am y prosiect, i rannu'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer dyfodol addysg anghenion arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor, a chyflwyno cynlluniau ar gyfer yr ysgol arbennig newydd mae'r Cyngor yn gobeithio adeiladu ym Mhenrhyndeudraeth.

Da oedd gweld gymaint o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd; roeddent yn gyfleoedd gwych i ateb cwestiynau, i drafod a gwrando ar sylwadau cefnogol i'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd.

Gan nad oedd pawb wedi gallu manteisio ar y cyfle i fynychu'r digwyddiadau penderfynwyd rhannu'r prif gwestiynau a godwyd, a'r sylwadau ac atebion a ddaeth i law fel bod eglurder ynglŷn â'r cynlluniau cyffrous sydd ar droed.

Dyma'r prif gwestiynau a godwyd:

**C: Ble fydd yr ysgol arbennig newydd?**

A: Rydym yn gobeithio adeiladu'r ysgol newydd ym Mharc Busnes Eryri ym Mhenrhyndeudraeth ond mae rhaid sicrhau addasrwydd y tir a'r safle cyn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae Llywodraeth Cymru yn barod wedi cytuno i roi les y tir i ni er mwyn ei ddatblygu fel safle i'r ysgol newydd. Ond mae dal angen:

a) Cael cytundeb yr Adran Gynllunio i newid defnydd y tir (ar hyn o bryd mae'r tir wedi ei neilltuo ar gyfer defnydd diwydiannol yn unig)

b) Mae'r Adran Eiddo yn gwneud gwaith i wneud yn siŵr bydd adeiladu ar y tir ddim yn rhy anodd na'n rhy gostus.

**C: Pryd fydd yr ysgol yn agor?**

A: Rydym yn anelu i gwblhau'r gwaith adeiladu erbyn Ebrill 2016 er mwyn i'r plant gael mynd yno yn achlysurol a dod i arfer a'r ysgol newydd yn ystod Tymor yr Haf, cyn trosglwyddo yn barhaol i'r safle newydd ym Medi 2016.

**C: A fydd Ysgol Hafod Lon ac unedau Tŷ Meirion a Thŷ Aran yn cau?**

A: Ar hyn o bryd mae 4 opsiwn posib. Mi fydd angen gwneud gwaith ychwanegol pellach ar y 4 opsiwn yma cyn byddwn yn gallu penderfynu ar yr opsiwn terfynol. Mi fydd y penderfyniad terfynol ar yr opsiwn yma yna'n ddibynnol ar ganlyniad y drefn statudol a chytundeb Llywodraeth Cymru.

Yr opsiynau dan sylw ydi:

- *Gwneud dim*

- *Ysgol newydd gan gau Ysgol Hafod Lon, Tŷ Aran a Thŷ Meirion.*
- *Ysgol newydd gan gau Ysgol Hafod Lon yn unig gan barhau gyda Thŷ Aran a Thŷ Meirion.*
- *Ysgol newydd gan gau Ysgol Hafod Lon a Thŷ Aran yn unig gan barhau gyda Thŷ Meirion.*

**C: A fydd staff yr ysgolion ac uned/unedau AAA sy'n cau yn cael gwaith yn yr ysgol newydd?**

A: Rydym yn rhagweld bydd angen mwy o staff yn yr ysgol newydd felly'r gobaith ydi y bydd digon o gyfleoedd swyddi i'r staff presennol gynnig amdanynt.Yn unol â rheoliadau staffio, y corff llywodraethol sydd gyda'r hawl i benderfynu strwythur staffio'r ysgol. Golyga hyn byddent yn penderfynu'r nifer o athrawon a chymorthyddion fydd eu hangen yn yr ysgol newydd a'r ffordd fydd yr ysgol yn llenwi'r swyddi. Mi fydd yr Adran Addysg yn pwyso ar y corff i roi ystyriaeth deg i'r staff presennol ac anogir y llywodraethwyr i gynnig cyfweliad i'n staff o unrhyw ysgol/uned fydd yn cau.

Mi fydd Gwasanaeth Arlwyaeth a Glanhau Ysgolion yr Adran Addysg yn rhoi ystyriaeth deg i staff arlwyaeth a glanhau presennol fydd yn dymuno cael gwaith yn yr ysgol newydd ac yn cynnig cyfweliad iddynt.

**C: Faint o blant fydd yn gallu mynd i'r ysgol?**

A: Roedd y cais gwreiddiol ar gyfer 84 o blant, ond, oherwydd cynnydd yn y galw ac yn dilyn ymgynghori mewn awdurdodau lleol eraill am adeiladu ysgolion newydd tebyg, rydym yn gobeithio sicrhau'r cynhwysedd ar gyfer oddeutu 100 o blant a phobl ifanc yn yr ysgol newydd.

**C: Faint o welyau fydd yn yr uned breswyl ac egwyl fer?**

A: Mi fydd gan yr uned 6 gwely ar gyfer defnydd preswyl a gofal egwyl fer.

**C: Pryd fydd y darpariaeth egwyl fer ar gael?**

A: Mae yna nifer o fodelau ar gyfer darpariaeth egwyl fer a mae angen inni ystyried nhw i gyd ymhellach cyn dod i benderfyniad terfynol. Ymysg yr opsiynau byddwn yn eu ystyried fydd y posiblrwydd o agor dros benwythnosau a gwyliau ysgol.

**C: Pa adnoddau fydd yn yr ysgol?**

A: Wrth gwrs mae'r safonau cenedlaethol ar gyfer adeiladu ysgol arbennig yn llywio'r drafodaeth yma, ond rhagwelir cynnwys yr adnoddau canlynol:

- Pwll hydrotherapi
- Stafelloedd synhwyrol
- Stafelloedd therapi cyffredinol
- Stafell therapi 'rebound'
- Neuadd gyda llwyfan
- Cegin, lle bwyta a chaffi
- Dosbarthiadau gydag offer angenrheidiol
- Amgylchfyd allanol symbylus ac aml synhwyrol
- Adnodd ar gyfer datblygu entrepreneuriaeth y tu allan (gerddi ayyb)
- Cwrt chwaraeon pob tywydd
- Man chwarae addas (gan gynnwys peldroed)

Mae'r pensaer yn brysur yn datblygu cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd a wedi bod yn trafod yr anghenion gyda pobl sydd yn gweithio gyda plant ag anghenion arbennig, athrawon a'r plant eu hunain. Derbyniodd cynlluniau cychwynol ar gyfer yr ysgol ymateb bositif iawn yn ystod y diwrnodau agored yn Hydref a Tachwedd a mae'r sylwadau dderbynwyd wedi eu rhannu gyda'r pensaer.

**C: Bydd y cyfleusterau fel y pwll hydrotherapi, ystafell synhwyrol a neuadd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd y tu allan i oriau ysgol?**

A: Y gobaith yw sicrhau hyn mewn cydweithrediad â'n partneriaid e.e. gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r drydedd sector.

**C: A fydd rhaid i blant gydag anghenion arbennig fynd i'r ysgol newydd?**

A: Ni ragwelwn newid i'r polisi presennol, ac mi fydd y drefn statudol gytunedig a sefydlwyd eisoes yn digwydd ar y cyd rhwng rhieni a'r Adran Addysg (sef trafod a chytuno ar ysgol briodol drwy Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig).

**C: A fydd plant sydd yn mynd i'r ysgol newydd yn cael cludiant o'u cartrefi?**

A: Mi fydd plant yn derbyn cludiant i'r ysgol newydd yn unol â'r polisi cludiant Cyngor Gwynedd i ddysgwyr gydag Anghenion Addysgol Arbennig.

**C: A fydd plant sy'n mynd i'r ysgol newydd yn gallu mynd i ysgol prif lif am rai gwersi?**

A: Mi fydd hyn yn parhau fel y polisi presennol, sef trefniant ar sail asesu anghenion pob plentyn yn unigol fel ar hyn o bryd.

**C: A fydd llwyfan yn y neuadd?**

A: Un o ddymuniadau mwyaf poblogaidd plant Ysgol Hafod Lon ydi cael llwyfan yn y neuadd ar gyfer perfformiadau, felly mae cael llwyfan yn y neuadd ar frig y rhestr.

**C: A fydd lle i chwarae peldroed yn yr ysgol newydd?**

A: Dymuniad arall poblogaidd gan ddisgyblion yr ysgol presennol ydi cael lle i chwarae peldroed a mae'n fwriad sicrhau man addas ar gyfer hyn ar safle'r ysgol newydd.

**C: A fydd digon o le parcio ar gyfer teuluoedd pan fydd cyngherddau?**

A: Ar hyn o bryd mae'r cynllun ar gyfer 70 o gerbydau gan gynnwys bysiau mini. Os na fydd hyn yn cynnig digon o le ar gyfnodau prysur fel cyngherddau yna mae digon o le parcio ychwanegol ar y stad.

**C: A fydd posib ychwanegu at yr adeilad yn y dyfodol os fydd angen mwy o le?**

A: Mae safle a chynllun yr ysgol newydd yn caniatáu ychwanegu ato yn y dyfodol os oes angen.

**C: A fydd gwasanaethau anghenion arbennig, fel therapi cerdd, yn cael eu cynnig o'r ysgol newydd?**

A: Bydd penderfyniadau am y gwasanaethau fydd yn cael eu cynnig oddi fewn i'r ysgol yn cael eu cymryd yn dilyn ymgynghoriadau rhwng yr Adran Addysg, ein partneriaid allweddol megis gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a darparwyr eraill.

**C: A fydd unrhyw asiantaethau eraill yn gweithio yn yr ysgol?**

A: Y gobaith ydi gallu cynnig lleoliad i bartneriaid allweddol ymgartrefu yn yr ysgol er budd plant gydag anghenion arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor.

**C: A fydd yna gydweithio rhwng yr ysgol a busnesau a chymdeithasau eraill yn yr ardal e.e. Seren a busnesau ar y stad diwydiannol?**

A: Mi fydd datblygu cyfleoedd cydweithio rhwng yr ysgol a busnesau a chymdeithasau lleol yn werthfawr iawn a rhagwelir bydd trafodaethau i wneud hyn yn digwydd yn agosach i ddyddiad agor yr ysgol.

**C: Beth fydd yn digwydd i adeilad Ysgol Hafod Lon ar ôl cau?**

A: Mae gan Cyngor Gwynedd bolisi o roi'r cyfle cyntaf i'r gymuned leol wneud cais am safle unrhyw ysgol sy'n cau. Os na fydd y gymuned am wneud cais yna mi fydd y safle'n cael ei werthu ar y farchnad agored.

## Y camau nesaf

| | |
|---|---|
| **Ionawr** | Llywodraeth Cymru'r asesu a phenderfynu ar gam 1 achos fusnes |
| **Chwefror - Mawrth** | Gweithio ar gam 2 yr achos fusnes |
| **Mawrth** | Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r hawl i ymgynghori statudol |
| **Ebrill - Mai** | Ymgynghori statudol<br>Llywodraeth Cymru'r asesu a phenderfynu ar gam 2 achos fusnes |
| **Mehefin** | Cabinet yn cymeradwyo penderfyniad ymgynghori statudol<br>Gweithio ar gam 3 yr achos fusnes |
| **Gorffennaf** | Llywodraeth Cymru'r asesu a phenderfynu ar gam olaf achos fusnes<br>Rhybudd statudol |
| **Medi - Hydref** | Penderfyniad terfynol Cabinet Cyngor (neu arall) |

**Adeiladu ysgol newydd**

| | |
|---|---|
| **Ionawr – Tachwedd 2014** | Cynllunio ysgol newydd, caniatâd cynllunio, tendro am gwmni i'w adeiladu |
| **Ionawr 2015 – Mawrth 2016** | Adeiladu a dodrefnu yr ysgol newydd |

Am mwy o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tim prosiect

drwy e-bost: Ysgolarbennigmeiriondwyfor@gwynedd.gov.uk neu ffôn: 01286 679648

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyflwyniad

Fel rhan o Raglen Ysgolion 21 Ganrif mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio ar brosiect i wella darpariaeth anghenion addysg arbennig ar gyfer ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor o Wynedd. Er mwyn gwneud hyn rydym wedi sicrhau buddsoddiad cyfalaf, mewn egwyddor, o £6.2m gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu ysgol newydd ar gyfer hyd at 100 o blant gydag uned breswyl / egwyl fer 6 gwely. Cyfanswm y buddsoddiad fydd £12.4m. Mi fydd y ddarpariaeth newydd yn cael ei leoli ym Mhenrhyndeudraeth, sydd yn ganolig i'r 2 ardal.

Er mwyn gwireddu'r datblygiad hwn mae Cyngor Gwynedd wedi ystyried nifer o opsiynau er mwyn cytuno ar ba ddarpariaeth fydd eu hangen yn dilyn y datblygiad. Yn dilyn gwaith sylweddol a thrafodaethau eang dros y flwyddyn ddiwethaf rydym o'r farn mae'r model orau fydd i agor ysgol ac uned breswyl / egwyl fer newydd gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon a chau Uned Tŷ Aran, gan barhau â Uned Tŷ Meirion. Mae'r rhesymeg tu ôl i'r penderfyniad hwn i'w weld yn y ddogfen ymgynghori.

Wrth gynllunio i wireddu agor neu chau unrhyw ysgol mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 sy'n rhoi arweiniad ar y drefn sydd angen ei ddilyn. Mae'r cod yma yn nodi fod awdurdodau lleol yn gorfod cynnal asesiadau o'r effaith fydd unrhyw newid yn narpariaeth ysgolion yn ei gael ar y gymuned, ar yr iaith Gymraeg ac ar gydraddoldeb, felly diben y ddogfen hon ydi asesu effaith yr opsiwn yma ar y ffactorau hyn gan nodi unrhyw gamau i fynd i afael ag unrhyw effaith negyddol sy'n cael eu hadnabod.

Datblygwyd y gwaith yma gyda chymorth penaethiaid perthnasol a Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith Cyngor Gwynedd.

## Y sefyllfa bresenol

### a) Gwybodaeth am y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Hafod Lon ac UnedTŷ Aran

Does dim dalgylch penodol i'r ysgol nac uned gan fod plant yn gallu mynychu o pob cwr o Meirion a Dwyfor a tu hwnt i'r 2 ardal yma mewn rhai achosion

**Ble mae'r plant yn byw a pellter teithio 2012-13**

| | | Dolgellau | Blaenau Ffestiniog | Tŷwyn | Abermaw | Bala | Dinas Mawddwy | Porthmadog | Trawsfynydd | Caernarfon | Pwllheli | Harlech |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Aran | Nifer | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Pellter teithio | Milltir | 0 | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 |
| Hafod Lon | Nifer | 1 | 8 | 0 | 2 | 0 | 0 | 11 | 2 | 4 | 20 | 3 |
| Pellter teithio | Milltir | 37 | 24 | 0 | 42 | 0 | 0 | 15 | 24 | 18 | 3 | 22 |

### b) Adnoddau a defnydd cymunedol

**Dolgellau**

- Canolfan Gymunedol
- Canolfan Hamdden
- Cyfleusterau Chwaraeon
- Meithrinfa Breifat
- Cae Chwarae Plant
- Capel-Festri-Eglwys
- Ystafelloedd Gyfarfod mewn gwestai â Thŷ Siamas
- Llyfrgell / Library
- Siopau a Swyddfa Bost
- Caffis

Mae disgyblion Tŷ Aran yn gwneud ychydig o ddefnydd o gyfleusterau y Ganolfan Hamdden.

Mae'n bosib eu bod yn gwneud defnydd o'r adnoddau eraill tu allan i oriau'r ysgol.

**Y Ffôr, Pwllheli**

- Siopau a Swyddfa Bost
- Canolfan arddio a caffi
- Canolfan bentref
- Capel a festri

Nid oes defnydd rheolaidd yn cael ei wneud o'r cyfleusterau, hyn yn ystod oriau ysgol.

Mae'n bosib eu bod yn gwneud defnydd o'r adnoddau tu allan i oriau'r ysgol.

## c) Asesiad

| Meini prawf ar gyfer yr effaith gymunedol | Ysgol Hafod Lon presenol | Uned Tŷ Aran | Ysgol newydd | Mesurau lliniaru ar gyfer effaith negyddol |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol/uned yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol, clwb ieuenctid/cylch chwarae. | Ni ddarperir unrhyw ddarpariaeth cymunedol yn yr ysgol. | Ni ddarperir unrhyw ddarpariaeth cymunedol yn yr uned. | Gan fydd cyfleusterau ac adnoddau pwrpasol fel pwll hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd, neuadd fawr, ystafelloedd hyfforddi a llefydd chwarae yn yr ysgol newydd mi fydd mwy o gyfle ar gyfer defnydd cymunedol. | Dim angen |
| Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan yr Ysgol/uned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau? | Does dim defnydd o'r ysgol gan y gymuned | Does dim defnydd o'r uned gan y gymuned | | Dim angen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| P'run a gaiff neu p'run a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai'r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau). | Mae yna ysgol gynradd yn y pentref. Pe bydda Ysgol Hafod Lon yn cau mi fydda'r cyfleustrerau eraill yn parhau ar gyfer defnydd y gymuned. | Mae yna ysgol uwchradd a chynradd yn nhref Dolgellau a mae defnydd cymunedol o'r Ganolfan Hamdden, Tŷ Siamas ayyb. Pe bydda'r uned yn cau mi fydda'r cyfleustrerau eraill yn parhau ar gyfer defnydd y gymuned. | | Dim angen |
| Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen. | | | Gan fydd cyfleusterau ac adnoddau pwrpasol fel pwll hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd, neuadd fawr, ystafelloedd hyfforddi a llefydd chwarae yn yr ysgol newydd mi fydd mwy o gyfle ar gyfer defnydd cymunedol. | Dim angen |
| Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgol amgen yn yr un categori iaith. | Gan fydd y darpariaeth newydd yn gwasanaethu pob cwr o Meirionnydd a Dwyfor mae'n bosib fydd rhai yn gorfod teithio ymhellach yn y dyfodol.<br><br>Ar sail y disgyblion presenol bydda 47% yn teithio ymhellach. | Gan fydd y darpariaeth newydd yn gwasanaethu pob cwr o Meirionnydd a Dwyfor mae'n bosib fydd rhai yn gorfod teithio ymhellach yn y dyfodol.<br><br>Ar sail y disgyblion presenol bydda 0% yn teithio ymhellach. | Rhagwelir fydd pellter teithio i'r darpariaeth newydd yn decach ar gyfer plant y 2 ardal fydd yn cael ei wasanaethu, sef Meirionnydd a Dwyfor.<br><br>Ar sail y disgyblion presenol bydd 49% yn teithio ymhellach. | |
| Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. | | | Pe bydda gweithgareddau yn cael eu cynnal tu allan i oriau ysgol yna mi fydd yr ysgol yn sicrhau cefnogaeth i rieni a plant i gymryd rhan e.e trefniadau teithio. | Cynnig cefnogaeth yn ol y galw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus. | Trefnir cludiant pwrpasol ar gyfer disgyblion felly nid oes defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. | Trefnir cludiant pwrpasol ar gyfer disgyblion felly nid oes defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. | Er fydd cludiant pwrpasol yn cael ei drefnu ar gyfer mwyafrif y plant, mae'r ysgol newydd ar un o'r prif lwybrau bysiau yn Meirionnydd o Borthmadog a mae gorsaf trên agos, felly mae defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus i blant, rhieni a defnyddwyr eraill yn opsiwn. | |
| Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach. | Dim wedi eu adnabod | Dim wedi eu adnabod | Dim wedi eu rhagweld | |

**Effaith newid darpariaeth:**

| Sgôr | Cadarnhaol 5 | Niwtral 3 | Negyddol 0 |
|---|---|---|---|

## Casgliad

Yn dilyn dadansoddiad o’r defnydd cymunedol presennol o Ysgol Hafod Lon ac uned Tŷ Aran, a’u cyfraniad i’w cymunedau ac asesu’r effaith fydda’r drefn newydd yn ei gael ar hyn, daethpwyd i’r casgliad na fydda unrhyw effaith negyddol ar yr ardaloedd ble mae’r ddarpariaeth bresennol a’r plant sy’n mynychu ac y byddai’r ddarpariaeth newydd yn creu cyfleoedd cadarnhaol i’r dyfodol.

Gan nad oes effaith negyddol wedi ei adnabod o ail-leoli Ysgol Hafod Lon neu cau Uned Tŷ Aran, ni rhagwelir unrhyw angen am fesurau lliniaru sylweddol.

Wrth weithredu’r cynnig o sefydlu’r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i’r gymuned yn ehangach, yn enwedig rhai gyda anghenion arbennig, er mwyn gwneud defnydd llawn o’r ddarpariaeth newydd a’r adnoddau arbennigol.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o AAA.  Mae gan ddisgyblion a'u rhieni fynediad i wasanaeth sydd yn gwbl ddwyieithog.

## Cynllun Addysg Gymraeg

Mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi Cynllun Addysg Gymraeg newydd sy'n egluro sut rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau addysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. I weld copi o'r Cynllun Drafft ewch i'r dudalen Cynllun Addysg Gymraeg ar wefan Cyngor Gwynedd.

## Cyflwyniad

Mae pob un o sefydliadau addysgol y sir wedi eu dynodi fel ysgol ddwyieithog.

Isod mae tabl yn arddangos iaith gyntaf neu gartref pob disgybl.

| | **Ffigyrau 2012-2013** | |
|---|---|---|
| | Hafod Lon | Tŷ Aran |
| Nifer disgyblion | 51 | 2 |
| Cymraeg yn iaith gyntaf gartref | 33 | 1 |
| Saesneg yn iaith gyntaf gartref | 9 | 1 |
| Dim wedi datgan | 9 | 0 |

| | **Sefyllfa Bresennol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini prawf ar gyfer yr effaith ar yr iaith** | **Ysgol Hafod Lon presenol** | **Uned Tŷ Aran** | **Ysgol newydd** | **Mesurau lliniaru ar gyfer effaith negyddol** |
| Iaith y plant | 65% o'r disgyblion presenol yn siarad Cymraeg yn y cartref fel eu iaith cyntaf. | 50% o'r disgyblion presenol yn siarad Cymraeg yn y cartref fel eu iaith cyntaf. | Mi fydda 64% o'r disgyblion presenol yn siarad Cymraeg yn y cartref fel eu iaith cyntaf. | |

**Effaith newid darpariaeth:**

| Sgôr | Cadrnhaol 6 | Niwtral 0 | Negyddol 0 |
|---|---|---|---|

## Casgliad

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed a gallu perthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Bydd angen i unrhyw gynigion i newid trefniadaeth yn lleol gymryd ystyriaeth lawn o effeithiau ieithyddol posib. Bydd cynnal a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol ac fel iaith gymdeithasol ymhlith plant felly yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn ardaloedd.

Yn gryno, yr hyn nodwyd yn yr asesiad oedd na fydda cau uned Tŷ Aran nag ail-leoli Ysgol Hafod Lon yn cael effaith negyddol ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn yr ysgol/uned ble mae nhw wedi eu lleoli nac ar y gymuned leol gan fod mwyafrif y plant yn teithio o nifer o leoliadau gwasgaredig i dderbyn eu haddysg yn y 2 leoliad.

Y teimlad yw fydd sefydlu'r ysgol newydd yn creu mwy o gyfleoedd i atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn arbennig i'r rhai hynny fydda wedi mynychu'r unedau gan fydd cyfle iddynt gymysgu gyda mwy o blant drwy'r Gymraeg. Mi fydd mynychu'r ysgol newydd hefyd yn gyfle i'r plant hynny fydda'n gorfod mynd all-sirol (i ddarpariaeth di-Gymraeg), dan y drefn bresennol, i dderbyn addysg Gymraeg a chyfle i gymysgu gyda phlant drwy'r iaith Gymraeg.

Dylid nodi ei bod yn anodd ceisio mesur effaith bosibl trefniadaeth ysgolion ar y Gymraeg. Y prif bwyntiau cadarnhaol sy'n deillio o'r asesiad o effaith yw'r manteision i'r ddarpariaeth o ran addysg. Er na fydd categori presennol yr ysgol o ran iaith yn newid, mae'r cynnig yn gyfle i wella addysg a chryfhau addysg cyfrwng Cymraeg plant gyda AAA yn Meirionnydd a Dwyfor.

## Sefyllfa bresennol

| Census 2011 | | | | | | | Ffigyrau 2012-2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Lleoliad** | **Abererch (Ward Hafod Lon)** | **Dwyfor** | **Dolgellau** | **Meirionnydd** | **Gwynedd** | **Ysgol Hafod Lon bresenol** | **Uned Tŷ Aran** |
| | **Poblogaeth** | 1,354 | 27,725 | 2,688 | 33,576 | 121,874 | 51 | 2 |
| **Rhyw** | Gwryw | | | | | | 36 | 2 |
| | Benyw | | | | | | 15 | 0 |
| **Iaith** | Cymraeg | | | | | | 33 | 1 |
| | Saesneg | | | | | | 9 | 1 |
| | Heb ddatgan | | | | | | 9 | 0 |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn Prydeinig/Gwyddelig | 1,321 | 26,830 | 2,615 | 32,761 | 115,642 | 49 | 2 |
| | Gwyn arall | 6 | 511 | 24 | 315 | 1,931 | | |
| | Grwpiau ethnig cymysg | 11 | 170 | 16 | 197 | 964 | | |
| | Grwpiau ethnig arall | 16 | 214 | 33 | 303 | 3,337 | 2 | |
| **Crefydd** | Cristnogaeth | 931 | 17,903 | 2,654 | 20,906 | 72,503 | | |
| | Arall | 16 | 345 | 30 | 444 | 2,773 | | |
| | Dim crefydd | 331 | 7,152 | 740 | 9,333 | 36,136 | | |
| | Heb nodi crefydd | 76 | 2,325 | 222 | 2,893 | 10,435 | 51 | 2 |

| Cadarnhaol | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| | Dyletswyddau | Effaith (cadarnhaol, niwtral neu negyddol) | Mynd i'r afael |
|---|---|---|---|
| Dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010 | Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth | Dim newid.<br>Parhau i gydymffurfio a pholisïau statudol sy'n bodoli eisoes. | |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Mi fydd darpariaeth newydd gyda cyfleusterau modern yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i blant Meirionnydd a Dwyfor. Mi fydd y darpariaeth newydd yn cynnig cyfleoedd cyfartal i'r hyn mae plant Arfon a siroedd eraill yn barod yn ei dderbyn.<br><br>Rhagweliri fydd lleoli'r ysgol yn ganolig i Meirionnydd a Dwyfor yn sicrhau pellter teithio cymharol i mwyafrif plant y ddwy ardal.<br><br>Mi fydd y ddarpariaeth newydd yn rhoi cyfle i rieni ddewis danfon eu plant i Ysgol AAA neu i prif-lif.<br><br>Mi fydd y darpariaeth newydd yn caniatau i blant fydda, ar hyn o bryd, yn gorfod mynd all-sirol am eu addysg i aros o fewn y sir. | Mi fydd cludiant ar gyfer y disgyblion a mi fydd y ddarpariaeth gwell yn gorbwyso'r teithio ychwanegol. |
| | Meithrin perthnasau da | Mi fydd y cyfle yn parhau yn Uned Tŷ Meirion i'r plant integreiddio gyda plant y prif lif ac i'r gwrthwyneb. | Cyfle i annog intergreiddio gyda ysgolion yn ardal Penrhyndeudraeth a Porthmadog.<br><br>Cyfle i gydweithio gyda busnesau ar y stad a chyfagos. |
| NODW EDDION | Hil | NI ragwelir unrhyw newid sylweddol i'r sefyllfa bresenol. | Parhau i gydymffurfio a pholisïau perthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Anabledd | Darpariaeth ac adnoddau gwell i blant Meirionnydd a Dwyfor. | Gan mae ysgol AAA fydd yr ysgol newydd mi fydd sicrhau ymateb i anableddau plant yn cael sylw naturiol. |
| | Rhyw | Mae'n anodd darogan rhaniad rhyw yr ysgol newydd ond ni ragwelir fydd y rhaniad yn creu unrhyw broblem. | Ymateb i unrhyw faterion , ac os, maent yn codi yn y dyfodol |
| | Ailbennu Rhywedd | Ddim yn fater ar hyn o bryd | Parhau i gydymffurfio a pholisïau perthnasol |
| | Cyfeiriadedd Rhywiol | Ddim yn fater ar hyn o bryd | Parhau i gydymffurfio a pholisïau perthnasol |
| | Crefydd neu gred | NI ragwelir unrhyw newid sylweddol i'r sefyllfa bresenol. | Parhau i gydymffurfio a pholisïau perthnasol |
| | Yr Iaith Gymraeg | Ni ragwelir unrhyw newid sylweddol yn rhaniad iaith yr ysgol newydd. Mi fydda 64% o'r disgyblion presenol yn siarad Cymraeg yn y cartref fel eu iaith cyntaf.<br><br>Mi fydd y darpariaeth newydd yn caniatau i blant fydda ar hyn o bryd yn gorfod mynd all-sirol i ysgolion di-Gymraeg i dderbyn addysg Gymraeg yn agosach i adref. | Parhau i gydymffurfio a pholisïau perthnasol |
| | Oedran | Bydd yr ysgol yn gwasanaethu plant o 3-19 oed. | Parhau i gydymffurfio a pholisïau perthnasol |

**Effaith newid darpariaeth:**

| Cadarnhaol 3 | Niwtral 8 | Negyddol 0 |
|---|---|---|

## Casgliad

Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb llawn o effaith gwahanol fodelau. Mae'r asesiad yn nodi'r nodweddion cydraddoldeb sydd angen eu hystyried, effaith y newid arnynt a'r camau i fynd i'r afael ac unrhyw effaith negyddol. Canlyniad hyn ydi fod ystyriaeth deg wedi ei roi i anghenion cydraddoldeb ac ein bod yn hyderus bydd trefniadau mewn lle i sicrhau fod y cynnig yn cyd-fynd ac unrhyw bolisïau perthnasol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon yn digwydd. Angen pwysleisio drachefn mai ysgol AAA sydd dan sylw ac felly bod cydraddoldeb anabledd yn rhan cwbl allweddol o'r holl ystyriaethau ac mai'r nod yn y pendraw yw gwella darpariaeth i ddisgyblion AAA.

## Ffynonellau gwybodaeth:

Mae'r ffynonellau canlynol o wybodaeth wedi'u defnyddio at ddiben y ddogfen hon:

- Holi Penaethiaid yr ysgolion dan sylw
- Data CYBLD Ionawr 2013
- Data ystadegol a gaiff ei chadw gan Wasanaethau Dysgu Cyngor Gwynedd
- Gwybodaeth o'r Cyfrifiad
- Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

**ATODIAD 3**

**Asesiad Safleoedd**

Gan fod cydnabyddiaeth y byddai angen adeiladu ysgol newydd ar safle newydd i ymdrin â'r angen cynyddol am lefydd ysgol AAA yn yr ardal, pe bai yna benderfyniad i ddatblygu ysgol newydd, penderfynwyd y dylid adnabod safle priodol.

Adnabuwyd y byddai angen i unrhyw ddarpariaeth newydd fod wedi'i lleoli yn ganolog i Feirionnydd a Dwyfor ac o'r herwydd penderfynwyd chwilio am safleoedd priodol yn ardaloedd Porthmadog a Phenrhyndeudraeth.

Yn dilyn chwilio'r ardal hon yn fanwl, adnabuwyd chwe safle posib. I benderfynu ar y safle mwyaf priodol, defnyddiwyd y ffactorau a ganlyn gan gymharu pob opsiwn yn eu herbyn:

a) Maint – roedd yn rhaid i'r safle fod yn o leiaf 20,000$m^2$.
b) Technoleg – pa anawsterau technolegol oedd yn debygol o godi wrth ddatblygu'r safle?
c) Llifogydd – pa mor ddrwg oedd y risg o lifogydd?
d) Traffig – pa mor anodd fyddai darparu mynediad i'r safle?
e) Cynllunio – beth fyddai'r tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio?
f) Effaith ar gostau datblygu – y tebygolrwydd y byddai datblygu'r safle yn creu unrhyw gostau sylweddol yn ychwanegol i'r costau hynny a adnabuwyd eisoes ac sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

O ganlyniad i asesu'r chwech opsiwn yn erbyn y ffactorau hyn (gweler isod), daethpwyd i'r casgliadau a ganlyn:

a) Bod llifogydd yn risg uchel yn y safle ger Ysgol Eifionydd;
b) Nad oedd unrhyw un o'r safleoedd yn gyfan gwbl heb risg, ond fod y risgiau oedd yn gysylltiedig â safle Parc Eryri yn llai na'r safleoedd eraill ac y byddai modd eu rheoli wrth gynllunio'n ofalus.
c) Ystyriwyd mai safle Parc Eryri oedd yr opsiwn gorau o ran y dechnoleg.
d) Penderfynwyd felly mai Parc Eryri oedd yr opsiwn gorau.

| Safle | Maint<br>Angen safle<br>**20,000m²** - (4.95 acer) | Technegol | Llifogydd | Ardrawiad traffig | Cynllunio | Effaith ar y costau datblygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle ger Meadow Drive, Porthmadog. (Wrth ochr Ysgol Eifionydd)** | • 36,432m² – (9 acer)<br>• Mwy na digon o dir i adeiladu<br>• Tir Preifat ond ar y farchnad. | • Eithaf gwastad a chlir<br>• Cyn safle swyddfeydd contractwyr ffordd osgoi Porthmadog, felly<br>  • Mynediad i'r safle yn barod<br>  • Trydan ar y safle i'r contractwyr | • Mewn parth risg llifogydd uchel – C1<br>• Modelau llifogydd wedi'u paratoi gan Ymgynghorwyr allanol.<br>• Angen gwaith paratoi i godi lefelau'r safle cyn adeiladu.<br>• Angen ail-fodelu'r safle wedi cyhoeddi Model Llifogydd diwygiaedig yr NRW ddiwedd Mai.<br>• Posibilrwydd cryf o achosi llifogydd mewn mannau eraill pe datblygir y safle yma.<br>• Trafodaeth gyda'r NRW wedi parhau ers misoedd, dim datrusiad ar y gorwel. | • Mynediad prsesennol i'r safle yn dda.<br>• **OND** Ni fyddai modd defnyddio'r mynediad yma i'r Ysgol gan na fyddai yn cydymffurfio a gofynion TAN15 Datblygiada llifogydd.<br>• O ganlyniad i'r uchod byddai'n rhaid defnyddio'r mynediad presennol i Ysgol Eifionydd sydd eisioes yn is-safonol.<br>• Bydd angen darparu man troi a pharcio oddi ar y briffordd<br>• Dim asesiad traffig ffurfiol wedi'i gomisiynu. | *Yn erbyn:*<br>• Tu allan i'r ffin datblygu; dim tystiolaeth ei fod wedi cael ei ddatblygu yn y gorffennol.<br>• Oddi mewn i'r parth risg llifogydd uchel C1<br><br>*O blaid*:<br>• Y safle ar un o brif lwybrau bysus yr ardal, ac o fewn taith gerdded neu feicio i drigolion lleol, felly'n hygyrch trwy ddulliau gwahanol o deithio. | • Costau sylweddol i godi lefelau lloriau'r adeilad uwchlaw lefel y llifogydd er mwyn cydymffurfio a TAN 15 Datblygiad a Risg Llifogydd.<br>• Costau amddiffyn adeiladau a thiroedd cyfagos rhag effeithiau llifogydd wedi newid lefelau'r safle.<br>• Creu mynedfa newydd i'r safle drwy Ysgol Eifionydd. |
| **Safle i'r Dwyrain o Dremadog ger y drofan gyferbyn ag Ysgol Y Gorlan.** | • 24,500m² – (5.93 acer)<br>• Tir preifat – gyda cynnig i'w werthu. | • Gwastad a chlir yn gyffredinol<br>• Peth tystiolaeth o ddwr yn sefyll ar y tir<br>• Ceuffos ddraenio fawr ar | • Mewn parth risg llifogydd uchel – C1<br>• Dim modelu llifogydd wedi'u | • Mynediad oddi ar Ffordd Dulyn, Tremadog gyda gwelededd da i'r ddau gyfeiriad. | *Yn erbyn:*<br>• Tu allan i'r ffin datblygu; dim tystiolaeth ei fod wedi cael ei ddatblygu yn y gorffennol.<br>• Oddi mewn i'r parth risg | • Costau sylweddol i godi lefelau lloriau'r adeilad uwchlaw lefel y llifogydd er mwyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyd ffin gorllewinol y safle.<br>• Tystiolaeth fod olion Rhufeinig wedi'u darganfod i'r gorllewin o'r safle – angen mwy o ymchwiliadau archeolegol. | comisiynu'n benodol ar y safle yma, ond tebygrwydd y byddai'r canlyniadau'n debyg i Safle Meadow Drive. | • Dim asesiad traffig ffurfiol wedi'i gomisiynu. | llifogydd uchel C1<br>• Ymwthiad i gefn gwlad agored;<br><br>*O blaid*:<br>• Y safle ar un o brif lwybrau bysus yr ardal, ac o fewn taith gerdded neu feicio i drigolion lleol, felly'n hygyrch trwy ddulliau gwahanol o deithio.<br>• Mae'r safle'n llenwi bwlch rhwng y pentref a ffordd osgoi newydd Tremadog a Phorthmadog. | cydymffurfio a TAN 15 Datblygiad a Risg Llifogydd.<br>• Costau amddiffyn adeiladau a thiroedd cyfagos rhag effeithiau llifogydd wedi newid lefelau'r safle. |
| **Safle cyn bencadlys Gelert, Parc Busnes Porthmadog.** | • 18,000m² – (4.45 acer)<br>• Tir preifat – ar werth. | • Safle gwastad wedi'i ddatblygu eisioes. 40% o'r safle wedi orchuddio gan adeilad diwydianol a swyddfeydd.<br>• Lefel llawr yr adeilad yma uwchlaw lefel y llifogydd. Byddai angen tua hanner arwynebedd y llawr yma i'r Ysgol.<br>• Byddai angen gwneud profion i sefydlu os y byddai'r sylfaeni yn addas i'r Ysgol newydd.<br>• Gwasanaethau ar y safle. | • Y Safle gyfan mewn parth risg llifogydd uchel – C1<br>• Tystiolaeth fod 40% o'r safle wedi'i godi uwchlaw lefel y llifogydd pan y datblygwyd y safle.<br>• Dim modelu llifogydd wedi'u comisiynu'n benodol ar y safle yma, ond tebygrwydd y byddai'r canlyniadau'n debyg i Safle Meadow Drive. | • Mynediad da i'r safle oddi ar Ffordd Penamser (A497)<br>• Dim asesiad traffig ffurfiol wedi'i gomisiynu. | *Yn erbyn:*<br>• Y safle yn rhan o barc busnessy'n cael ei warchod yn y CDU ar gyfer defnydd cyflogaeth – dosbarth defnydd B1. | • Gan fod y safle eisioes wedi cael ei ddatblygu mae'n bur debyg fod y prif wasanaethau ar y safle yn barod.<br>• Lefel 40% o'r safle wedi godi yn barod.<br>• Costau uwch i brynu'r safle gan fod adeilad arn o yn barod<br>• Costau dymchwel yr adeilad presenol. |
| **Safle ym Mharc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth.** | • 25,294m² - (6.25 acer)<br>• Tir ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ond parodrwydd | • Gwahaniaeth lefel sylweddol (9.00m) o flaen i gefn y safle. Angen gwaith peirianyddol sylweddol i lefelu neu greu terasau.<br>• Y safle ei hyn heb ei ddatblygu, OND yr holl wasanaethau ar yr ystad. | • Ddim mewn parth risg llifogydd | • Mynediad safonol oddi ar y briffordd i'r Parc Busnes.<br>• Lôn fynediad i'r safle o'r ddwy ochr gyda palmentydd.<br>• Byddai angen creu drapariaeth parcio a | *Yn erbyn:*<br>• Dim tystiolaeth fod y safle wedi cael ei ddatblygu yn y gorffennol.<br>• Yn rhan o barc busnes sy'n cael ei warchod yn y CDU ar gyfer defnydd cyflogaeth, dosbarth defnydd B1. | • Yr angen am waith peirianyddol sylweddol i lefelu/sefydlu terasau yn arwain at gostau uwchlaw yr hyn a ddefnyddiwyd wrth lunio'r bid cyfalaf.<br>• Gwrthddadl i'r uchod |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | i'w osod ar lês o 999 mlynedd. | • Ffyrdd mynediad, gyda thraeniant a goleuadau mewn lle yn barod.<br>• Astudiaethau manwl wedi'i gwneud o'r safle eisioes gan eraill yn ddiweddar, gan ddangos nad oes rhwystrau naturiol i ddatblygu'r safle o safbwynt daeareg, ecoleg nag archeoleg.<br>• Gwifrau trydan 400kV yn croesi yn agos at ffin ddwyreiniol y safle. Cadarnhad gan National Grid nad oes lefelau uwch yn y maes magnetig 100m i ffwrdd o'r gwifrau nag a geir yn unrhywle arall. Golygai hyn fod 90% o'r safle ar gael i'w ddatblygu. | | man troi oddi ar y safle, ond mae digon o le.<br>• Prinder llefydd parcio yn Galw Gwynedd, ceir yn parcio ar y ffordd fynediad.<br>• Dim asesiad traffig ffurfiol wedi'i gomisiynu. | • Adeiladau presennol yn y Parc yn cael eu defnyddio ar gyfer defnydd amgen. Byddai angen ystyried beth fyddai colli rhagor o ofod i ddefnydd amgen ar y strategaeth i gynnall cyflenwad digonol o dir i ddibenion cyflogaeth B1.<br>• Astudiaeth Tir Cyflogaeth 2012, sy'n ffurfio rhan o sail dystiolaeth i'r CDLl ar y Cyd, wedi'i adnabod fel un o gyfres o Brif Safleoedd sydd angen eu gwarchod.<br><br>*O blaid*:<br>• Mae'r safle'n agos at Benrhyneudraeth ac yn cael ei amgylchynu fwy neu lai gan ddatblygiad presennol<br>• Y safle ar un o brif lwybrau bysus yr ardal, ac o fewn taith gerdded neu feicio i drigolion lleol, felly'n hygyrch trwy ddulliau gwahanol o deithio.<br>• Potensial i sgrinio.<br>• Y safle wedi adnabod wedi'i ddynodi ar gyfer defnydd B1 yn y CDU presennol ac mewn cynllun datblygu blaenorol, er hyn nid oes ymgais wedi'i wneud i'e ddatblygu i'r defnydd yma. | yw fod prif wasanaethau, ynghyd a thraeniant a ffyrdd yn gwasanaethu'r safle yn barod. |
| **Safle** | **Maint** | **Technegol** | **Llifogydd** | **Ardrawiad traffig** | **Cynllunio** | **Effaith ar y costau datblygu** |
| **Safle ger Canol Cae, Penrhyndeudraeth. (Tu ôl i'r gyfnewidfa deleffon** | • 13,200 m² - ( 3.3 acer)<br>• Safle fel ag y mae ddim yn ddigon mawr, ond posibilrwydd fod tir sy'n ymylu ar y safle ar gael. | • Tir anwastad gyda sawl ponc greigiog a phant. Angen gwaith sylweddol i lefelu'r tir cyn y gellid ei ddatblygu fel safle ysgol. Posib ei fod yn fwy addas i adeiladu tai gan nad yw lefelau mor bwysig. Nifer o unedau llai.<br>• Nant yn rhedeg drwy ganol y safle, byddai angen creu | • Nid yw'r safle oddi mewn i barth llifogydd.<br>• Rhan o'r safle gyda brwyn yn tyfu arno, tystiolaeth ei fod yn wlyb. | • Mynediad presennol oddi ar y briffordd yn annigonol ac yn cael ei rannu â'r ffermdy ac ystad o dai preswyl.<br>• Dim asesiad traffig ffurfiol wedi'i gomisiynu. | *Yn erbyn:*<br>• Mae rhan o'r safle wedi cael ei ddynodi ar gyfer tai yn y CDU presennol ac mewn cynllun datblygu blaenorol.<br>• Er hyn, nid oes ymgais wedi'i wneud i'w ddatblygu i'r defnydd yma.<br>• Y safle wedi adnabod ar y Gofrestr Tir posib ar gyfer y | • Gan fod y safle wedi#i ddynodi yn dir adeiladu tai, peryg y bydd ei werth/bris yn llawer uwch nag sydd wedi'i ddarparu yn yr achos busnes.<br>• Costau sylwedol i lefelu'r safle i'w wneud yn addas i Ysgol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Tir preifat, ond ar y farchnad.<br>• Dim sicrwydd fod tir ychwannegol ar gael. | ceuffos neu beipen i'w chladdu er mwyn gwneud y mwyaf or safle.<br>• Gwifrau trydan 15kV yn croesi'r safle.<br>• Peipen nwy pwysedd uchel yn ymylu ar ac yn croesi rhan ddwyreiniol y safle. | | | CDLl ar y Cyd sy'n dangos ei argaeledd ar gyfer datblygiad tai.<br><br>*O blaid*:<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r safle y tu mewn i'r ffin ddatblygu.<br>• Y safle'n integreiddio a chysylltu'n dda gyda phatrwm datblygu presennol y ganolfan leol<br>• Yng nghanol y ganolfan leol sydd ar un o brif lwybrau bysus yr ardal, ac o fewn taith gerdded neu feicio i drigolion lleol, felly'n hygyrch trwy ddulliau gwahanol o deithio, cyd-fynd a maen prawf 2 o Bolisi CH37.<br>• Potensial i sgrinio | • Costau sylweddol i amgau'r ffos, uwchlaw beth sydd yn yr achos busnes.<br>• Costau dadgyfeirio'r llinell drydan. |
| **Safle ger cae chwarae Maes Y Parc, Penrhyndeudraeth.** | • 21,350m² - (5.3 acer)<br>• Tir preifat. – Cynnig i'w werthu. | • Llethr gweddol serth i lawr o'r briffordd (A487) i lawr i waelod y dyffryn. Gweddol wastad 66% o'r safle.<br>• Mynedfa oddi ar y briffordd.<br>• Angen gwaith sylweddol i greu ffordd i lawr at lefel adeiladu.<br>• Angen codi lefelau llawr y dyffryn i osgoi llifogydd.<br>• Brwyn yn tyfu o amgylch y nant – tir gwlyb<br>• Gwifrau trydan 15kV yn croesi'r safle o ddau gyfeiriad.<br>• Prif beipen nwy (Hen ac ddim yn cael ei defnyddio) yn croesi'r safle. | • Hanner y safle oddi mewn i barth llifogydd C2.<br>• Byddai angen codi'r tir yn yr ardal yma i gyd-ymffurfio â gofynion cynllunio TAN 15 Datblygiad a Risg Llifiogydd<br>• Dim modelu llifogydd wedi'u comisiynu'n benodol ar y safle. | • Mynediad presennol oddi ar y briffordd yn annigonol, ond y mae cyfleuon i greu mynediad gwell.<br>• Angen gwaith sylweddol i greu mannau troi a ffordd i lawr i'r Ysgol.<br>• Dim asesiad traffig ffurfiol wedi'i gomisiynu. | *Yn erbyn:*<br>• Mae'r safle tu allan i'r ffin ddatblygu ac nid ellir ei ddisgrifio fel tir a ddatblygwyd o'r blaen, gan nad oes adeilad arno'n barod nac olion adeilad a fu yno yn y gorffennol.<br>• Hanner y safle tu mewn i barth llifogydd C2. Angen bodloni gofynion Polisi B29 y CDU, Polisi Cynllunio Cymru a TAN15 Datblygiad a Risg Llifogydd.<br>• Er bod cae chwarae gerllaw, nid oes cysylltiad da rhwng y safle a ffurf adeiledig bresennol y ganolfan leol. Credir y byddai'r datblygiad yn ymwthiad i gefn gwlad agored sy'n ffurfio rhan o osodiad i Barc Cenedlaethol Eryri.<br>• Y safle yn ffinio â ffin Parc Cenedlaethol Eryri.<br>**NODYN:**<br>Awgrym gan y Cynllunwyr y gellid | • Costau codi lefel y tir uwchlaw'r lefel llifiogydd.<br>• Costau sylweddol i amgau'r ffos, uwchlaw beth sydd yn yr achos busnes.<br>• Costau dadgyfeirio'r llinell drydan.<br>• Costau prynu, digolledu' ac ail-leoli'r Cae Chware.<br>• Yr angen am waith peirianyddol sylweddol i greu ffordd i lawr i'r lefel isaf. |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
10 Mehefin 2014

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Dyfodol darpariaeth addysg anghenion arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor

**Swyddog cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol /
Garem Jackson – Swyddog Gwella Ansawdd Addysg / Arweinydd Prosiect

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd Cabinet y Cyngor i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig i ddatblygu ysgol addysg anghenion arbennig newydd ym Mhenrhyndeudraeth. Gyda darpariaeth preswyl ac egwyl fer, ac ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i'r safle.

---

**Barn yr aelod lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i Gabinet y Cyngor am ganiatâd i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad i aildrefnu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor o Wynedd. Gofynnwn i'r Cabinet benderfynu ar:

i. Y model a ffafrir ar gyfer y ddarpariaeth AAA i ymgynghori arno,
a
ii. Y safle newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol AAA i wasanaethu'r plant a phobl ifanc ym Meirionnydd a Dwyfor sydd angen addysg AAA.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, cytunodd y Cabinet ar y *'Cynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'* oedd yn cynnwys bwriad y Cyngor i addasu ei ddarpariaeth AAA.

1.3 Yn yr adroddiad nodwyd *dyhead gan y Cyngor i ddiwygio ei ddarpariaeth Addysg Arbennig oherwydd bod y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Hafod Lon dros ei chapasiti ac angen ei moderneiddio a'i hymestyn.*

1.4 Hefyd, nodwyd fod *darpariaeth briodol ac addas ar gyfer rhan ogleddol y sir yn Ysgol Pendalar, Caernarfon, a bydd y datblygiad yma yn anelu i sicrhau darpariaeth debyg, mewn man canolog, ar gyfer gweddill y sir. Y bwriad yw darparu canolfan rhagoriaeth ranbarthol Addysg Anghenion Arbennig ac i resymoli'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u lleoli allan o'r sir ar hyn o bryd. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol wedi ei lleoli'n ganolog ar gyfer yr ardal mae'n ei gwasanaethu, ac nid yw'r cyfleusterau chwaith ddim yn cwrdd ag anghenion addysgol modern.*

1.5 Sefydlwyd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2010 fel rhaglen fuddsoddi cyfalaf strategol, tymor hir i sefydlu cenhedlaeth o ysgolion 21ain ganrif yng Nghymru. Nod y rhaglen yw canolbwyntio adnoddau yn yr ysgolion iawn yn y llefydd iawn.

1.6 Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Strategol yr Awdurdod Lleol. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddatblygu prosiectau cyfalaf o ansawdd uchel fel rhan greiddiol o wella'r ddarpariaeth addysg trwy sicrhau ysgolion o faint a lleoliad priodol trwy'r sir.

1.7 Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod yr angen am ysgol AAA newydd ar gyfer ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor yng Ngwynedd fel un o'r prosiectau blaenoriaeth yn ei Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

1.8 Mi fydd yr ysgol newydd yn derbyn unrhyw blentyn sydd â datganiad oherwydd cyflwr cydnabyddedig o ran anghenion addysgol/meddygol, e.e. awtistiaeth, a fyddai ddigon difrifol ym marn arbenigwyr a'r panel cymedroli datganiadau (sy'n cynnwys pennaeth ysgolion Hafod Lon a Phendalar) i gael mynediad at ysgol arbennig. Ni fyddai'r ysgol yn derbyn plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ble nad oes ganddynt gyflwr anghenion addysgol/meddygol yn ogystal.

1.9 Byddai'r cynnig i adeiladu ysgol AAA newydd yn sicrhau y gwireddir **Cynllun Strategol 2013 – 2017** y Sir i ddarparu'n gyfartal a theg ar gyfer ei holl drigolion, trwy adeiladu ysgol arbennig newydd yn ne'r sir sy'n sicrhau mynediad cyfartal i ddarpariaeth arbenigol, waeth lle mae disgyblion gydag anawsterau dysgu mwy dwys a lluosog yn byw.

1.10 Bydd y datblygiad hefyd yn helpu i gwrdd â'r pedair nod yng **Nghynllun Strategol 2013 - 2017** Gwynedd ar gyfer **Plant a Phobl Ifanc, *'Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau llawn'*** gyda phwyslais arbennig ar flaenoriaethau 1, 2 a 3, a gwell rhagolygon ar gyfer cyflawni'r bedwaredd flaenoriaeth.

- Codi safonau addysgol plant a phobl ifanc;
- Rhoi cyfleoedd cyfartal i grwpiau o blant, pobl ifanc a theuluoedd bregus;
- Gwella addasrwydd y system ysgolion;
- Paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer gwaith a bywyd.

1.11 Mae'r **Cynllun Strategol** yn cyfeirio at yr angen i: 'wella rhai adeiladau i greu rhwydwaith cynaliadwy o ysgolion sy'n addas ar gyfer y dyfodol' a 'chynyddu nifer y llefydd ysgol sydd ar gael i blant gydag anghenion addysgol ychwanegol ym Meirionnydd/Dwyfor', sef yr ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn fwyaf gwasgaredig yng Ngwynedd.

1.12 Bydd datblygu Ysgol AAA newydd sy'n addas o ran ei lleoliad, yr adeilad, y staff a'r adnoddau yn galluogi'r awdurdod i ymateb yn llawn i hawliau rhieni i ddewis addysg addas i'w plant – boed hynny'n ysgol briflif neu ysgol arbennig **(Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001)** ac i gydymffurfio â gofynion y **Ddeddf Cydraddoldeb (2008)**.

1.13 Bydd y datblygiad hwn hefyd yn cydymffurfio â pholisi Iaith Gymraeg a Strategaeth Iaith ddiweddaraf Cyngor Gwynedd wrth sicrhau ein bod yn bodloni hawl y disgyblion hyn i dderbyn eu haddysg yn eu hiaith gyntaf, ac y perchir dymuniadau eu rhieni.

1.14 Bydd penderfyniad Cyngor Gwynedd i flaenoriaethu darpariaeth ysgol AAA newydd sy'n addas i bwrpas, yn ateb yr argymhelliad i parhau i weithio gyda'r AALl i wireddu'r cynlluniau ar gyfer gwella addasrwydd ac ansawdd yr adeilad yn adroddiad arolwg Ysgol Hafod Lon gan Estyn yn 2010 oedd yn

datgan nad yw *'maint yr ysgol a'r cyfleusterau ynddi bellach yn ddigonol ar gyfer nifer y dysgwyr'* (roedd 38 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar adeg yr arolwg).

1.15 Yn ogystal, mae'r **Adroddiad Adolygiad Strategol o Anghenion Dysgu Ychwanegol** a gomisiynwyd i CAPITA gan Gyngor Gwynedd yn 2011, yn gwneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng yr angen i drawsffurfio gwasanaethau ADY/AAA a darpariaeth yr ysgol AAA newydd yn ardal Meirionnydd a Dwyfor.

## 2. YR ACHOS FUSNES

2.1 Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i '*Cynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'* yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, aethpwyd ati i weithredu'r prosiect gan gynnwys creu achos fusnes fydda'n amlinellu'r anghenion busnes ac ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol darpariaeth AAA yn Meirionnydd a Dwyfor. Nid yn unig fydda'r achos fusnes yn rhoi cyfeiriad i'r prosiect ond mi fydda hefyd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau arian o Llywodraeth Cymru tuag at gostau cyfalaf sefydlu ysgol newydd. Mi fydd yr achos fusnes i Llywodraeth Cymru yn gorfod cael ei chyflwyno ar sail Model Pum Achos.

2.2 Mae cam cyntaf yr achos fusnes, sef y 'Strategic Outline Case' bellach wedi ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys yr achos dros newid, anghenion busnes a'r gwerthusiad opsiynau.

2.3 Mae amlinelliad o'r sefyllfa bresennol ac achos dros newid i weld yn **Atodiad 1.**

## 3 DATBLYGU OPSIYNAU A CYTUNO'R FFORDD YMLAEN

3.1 Er mwyn adnabod ac asesu opsiynau posib ar gyfer darpariaeth addysg AAA yn y dyfodol ym Meirionnydd a Dwyfor, penderfynwyd sefydlu Gweithgor. Yn ystod cyfarfodydd niferus o'r Gweithgor, trafodwyd yr angen am y newid, anghenion AAA yr ardal yn y dyfodol, a chytuno ar opsiynau posib a fyddai'n bodloni'r anghenion hynny. Roedd aelodau'r Gweithgor yn cynnwys swyddogion Cyngor Gwynedd o'r Adran Addysg a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorwyr Lleol a diddordeb yn maes AAA, cadeirydd corff llywodraethu Ysgol Hafod Lon, pennaeth Ysgol Hafod Lon a'r person cyfrifol am Uned Tŷ Aran, pennaeth Ysgol y Gader, Dolgellau, Swyddog Teulu a Phobl Ifanc Scope Cymru a Swyddog Iechyd Plant Cymunedol ar gyfer Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

3.2 Yn ystod y cyfres o gyfarfodydd, cytunodd y Gweithgor restr hir o wyth opsiwn posib ac i'w gwerthuso yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o ran buddsoddi (gweler **Atodiad 2**).

3.3 Canlyniad hyn oedd cytuno rhestr fer o bedwar opsiwn, gan gynnwys ffordd ymlaen a ffafrir. Mae'r 4 opsiwn yma ynghyd a'r manteision ac anfanteision ac yna casgliad ar eu addasrwydd fel opsiwn ar gyfer dyfodol darpariaeth AAA yn Meirionnydd a Dwyfor i weld yn **Atodiad 2**.

3.4 Mae costau cyfalaf a refeniw y pedwar opsiwn i'w gweld isod a'r casgliad gytunwyd gan y Gweithgor ar gyfer pob un o'r opsiynau.

**3.4.1 Opsiwn 1:** gwneud dim

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Gwynedd yn parhau â'i ddarpariaeth bresennol

**Costau Cyfalaf**

Os yn parhau a'r sefyllfa bresennol rhagwelir angen am wario o ddeutu £1.5m er mwyn parhau a Ysgol Hafod Lon yn ei lleoliad presennol ac Unedau Ty Aran a Ty Meirion fel ac y mae nhw ac yna gwariant cyson ar gyfer cynnal yr adeiladau. Ni fydd hyn yn gwella'r cyfleusterau nac yn cynyddu maint yr ysgol i dderbyn mwy o blant.

**Costau Refeniw**

| | Nifer disgyblion | Presennol (2013/2014) |
|---|---|---|
| Ysgol Hafod Lon - Dyraniad | 46 | £764,122 |
| Tŷ Aran - Cyllideb | 3 | £103,040 |
| Tŷ Meirion - Cyllideb | 10 | £240,000 |
| Uned ABC | 8 | £73,178 |
| Egwyl fer - Barnados | | £62,000 |
| Egwyl fer - Gwasanaethau eraill | | £52,000 |
| Preswyl a dyddiol all-sirol (addysg+preswyl) | 2+5 disgybl | £562,050 |
| Disgyblion prif lif | 59 | £1,003,000 |
| Costau cludiant | | £447,719 |
| **Cyfanswm Cost Refeniw** | **133** | **£3,307,109** |
| **Incwm Allanol** | | |
| Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | £144,000 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **£144,000** |
| **Cyfanswm Cost NET** | | **£3,163,109** |

**Casgliad**

Ystyriwyd na fyddai'r opsiwn hwn yn rhoi fawr ddim o fanteision gwirioneddol i ddyfodol AAA yn yr ardal, ac y byddai'n arwain at nifer o anfanteision, megis dim digon o lefydd ysgol AAA, cyfleusterau'n parhau i beidio â bod yn addas i bwrpas, lleoliad yr ysgol AAA ddim yn ganolog i Feirionnydd a Dwyfor, rhai plant yn gorfod parhau i fynd allan o'r sir i dderbyn eu haddysg.

Nid oedd  yn cynnig gwella addysg i blant gydag AAA ym Meirionnydd a Dwyfor ddigon i ateb yr anghenion strategol a busnes angenrheidiol ar gyfer y dyfodol. Ni fyddai ychwaith yn ateb yr anghenion strategol a busnes am ddarpariaeth breswyl yng Ngwynedd fyddai'n caniatáu i blant fynychu'r ysgol newydd yn hytrach na darpariaeth gostus tu allan i'r sir, neu'n caniatáu darpariaeth egwyl fer i deuluoedd.

**3.4.2** ***Opsiwn 2:*** Datblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth 6 gwely preswyl/egwyl fer gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon a ac Unedau Tŷ Aran a Thŷ Meirion. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

**Costau Cyfalaf**

Mi fydda cost cyfalaf o adeiladu'r ysgol newydd ac uned preswyl / ysbaid yn £12.4m gyda Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £6.2m tuag at y gost yma.

**Costau Refeniw**

| | **Nifer disgyblion** | |
|---|---|---|
| Ysgol newydd - Dyraniad | 100 | £1,639,860 |
| Uned preswyl / egwyl fer | 6 gwely | £550,000 |
| Disgyblion prif lif | 33 | £561,000 |
| Costau cludiant | | £357,872 |
| **Cyfanswm Cost Refeniw** | **133** | **£3,108,732** |
| **Incwm Allanol Posib** | | |
| Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | £0 |
| **Awdurdodau Lleol Eraill *** | | £183,333 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **£183,333** |
| **Cyfanswm Cost NET** | | **£2,925,399** |

* Does dim sicrwydd o'r costau incwm yma. Er fod cwpl o Awdurdodau Lleol eraill wedi mynegi diddordeb yn y posiblrwydd o ddanfon plant i'r ysgol newydd, fel disgyblion dyddiol neu preswyl yn y dyfodol, does dim sicrwydd bydd hyn yn digwydd.

**Casgliad**

Mae manteision yr opsiwn hwn yn cynnwys digon o lefydd ysgol AAA; cyfleusterau modern gydag adnoddau arbenigol, wedi'u lleoli'n ganolog i Feirionnydd a Dwyfor; llai o blant yn gorfod mynd allan o'r sir gan arwain at arbedion ariannol; darpariaeth breswyl a darpariaeth egwyl fer i deuluoedd Gwynedd, canolfan i gydweithio'n amlasiantaethol a chostau is.

Y brif anfantais fyddai gwneud i ffwrdd â'r ddarpariaeth AAA yn ne'r sir yn Uned Tŷ Meirion sy'n galluogi plant i fod yn rhan o addysg uwchradd briflif sydd o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

Byddai'r opsiwn hwn yn ymdrin â'r holl anghenion strategol a'r anghenion busnes ond byddai'n golygu rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth yn Uned Tŷ Meirion.

**3.4.3** ***Opsiwn 3:*** Datblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth 6 gwely preswyl / egwyl fer, gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon a pharhau â'r ddarpariaeth bresennol yn unedau Tŷ Aran a Thŷ Meirion. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

**Costau Cyfalaf**

Mi fydda cost cyfalaf o adeiladu'r ysgol newydd ac uned preswyl / ysbaid yn £12.4m gyda Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £6.2m tuag at y gost yma.

**Costau Refeniw**

| | **Nifer disgyblion** | |
|---|---|---|
| Ysgol newydd - Dyraniad | 100 | £1,639,860 |
| Uned Ty Aran - cyllideb | 3 | £103,040 |
| Uned Ty Meirion - cyllideb | 10 | £240,000 |
| Uned preswyl / egwyl fer | 6 gwely | £550,000 |
| Disgyblion prif lif | 20 | £340,000 |
| Costau cludiant | | £439,149 |
| **Cyfanswm Cost Refeniw** | **133** | **£3,312,049** |
| **Incwm Allanol Posib** | | |
| Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | £0 |
| **Awdurdodau Lleol Eraill *** | | £183,333 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Incwm** | | **£183,333** |
| **Cyfanswm Cost NET** | | **£3,128,716** |

* Does dim sicrwydd o'r costau incwm yma. Er fod cwpl o Awdurdodau Lleol eraill wedi mynegi diddordeb yn y posiblrwydd o ddanfon plant i'r ysgol newydd, fel disgyblion dyddiol neu preswyl yn y dyfodol, does dim sicrwydd bydd hyn yn digwydd.

**Casgliad**

Mae manteision yr opsiwn hwn yn cynnwys digon o lefydd ysgol AAA; cyfleusterau modern gydag adnoddau arbenigol, wedi'u lleoli'n ganolog i Feirionnydd a Dwyfor; llai o blant yn gorfod mynd allan o'r sir gan arwain at arbedion; darpariaeth breswyl a darpariaeth egwyl fer i deuluoedd Gwynedd, canolfan i gydweithio'n amlasiantaethol; parhau â'r ddarpariaeth yn Nhŷ Meirion sy'n galluogi plant o dde'r sir i fod yn rhan o addysg uwchradd briflif sydd o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

Y brif anfantais fyddai costau refeniw uwch o ganlyniad i barhau â'r Unedau AAA yn Nolgellau ac y byddai'r plant sy'n parhau i fynychu'r unedau hyn yn cael defnydd cyfyngedig o'r adnoddau AAA arbenigol modern.

Byddai'r opsiwn hwn yn ymdrin â'r holl anghenion strategol a'r anghenion busnes ond byddai'n golygu parhau â'r ddarpariaeth ddrud sy'n cael ei thanddefnyddio yn Uned Tŷ Aran.

**3.4.4 Opsiwn 4:** Datblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth 6 gwely preswyl / egwyl fer, gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran a pharhau â'r ddarpariaeth bresennol yn Uned Tŷ Meirion. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

**Costau Cyfalaf**

Mi fydda cost cyfalaf o adeiladu'r ysgol newydd ac uned preswyl / ysbaid yn £12.4m gyda Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £6.2m tuag at y gost yma.

**Costau Refeniw**

| | **Nifer disgyblion** | |
|---|---|---|
| Ysgol newydd - Dyraniad | 100 | £1,639,860 |
| Uned Ty Meirion - cyllideb | 10 | £240,000 |
| Uned preswyl / egwyl fer | 6 gwely | £550,000 |
| Disgyblion prif lif | 23 | £391,000 |
| Costau cludiant | | £424,008 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Cost Refeniw** | **133** | **£3,244,868** |
| **Incwm Allanol Posib** | | |
| Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | £0 |
| **Awdurdodau Lleol Eraill *** | | £183,333 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **£183,333** |
| | | |
| **Cyfanswm Cost NET** | | **£3,061,535** |

* Does dim sicrwydd o'r costau incwm yma. Er fod cwpl o Awdurdodau Lleol eraill wedi mynegi diddordeb yn y posiblrwydd o ddanfon plant i'r ysgol newydd, fel disgyblion dyddiol neu preswyl yn y dyfodol, does dim sicrwydd bydd hyn yn digwydd.

**Casgliad**

Mae manteision yr opsiwn hwn yn cynnwys digon o lefydd ysgol AAA; cyfleusterau modern gydag adnoddau arbenigol, wedi'u lleoli'n ganolog i Feirionnydd a Dwyfor; llai o blant yn gorfod mynd allan o'r sir sy'n arwain at arbedion; darpariaeth breswyl ac egwyl fer i deuluoedd Gwynedd; canolfan i gydweithio'n amlasiantaethol; parhau â'r ddarpariaeth yn Nhŷ Meirion sy'n galluogi plant o dde'r sir i fod yn rhan o addysg uwchradd briflif sydd o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

Y brif anfantais fyddai costau refeniw uwch o ganlyniad i barhau ag Uned Tŷ Meirion yn Nolgellau a defnydd cyfyngedig o'r adnoddau AAA arbenigol modern fyddai'r plant sy'n parhau i fynychu'r uned hon yn ei gael.

Byddai'r opsiwn hwn yn ymateb â'r holl anghenion strategol a'r anghenion busnes a byddai'n golygu gwneud i ffwrdd â'r ddarpariaeth ddrud sy'n cael ei thanddefnyddio yn Uned Tŷ Aran. Byddai hefyd yn golygu parhau ag Uned Tŷ Meirion ac yn galluogi plant o dde'r sir i fod yn rhan o addysg uwchradd brif ffrwd o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

**Rhesymeg dros barhau ag Uned Tŷ Meirion**

a) Mae'r achos ar gyfer parhau ag Uned Tŷ Meirion yn Nolgellau yn un hynod berthnasol i'r disgyblion sy'n gorfod teithio'n bell i gael addysg arbenigol. Mae'r boblogaeth ddisgyblion ar hyn o bryd yn cynnwys disgyblion nad ydynt yn medru teithio'n bell iawn oherwydd anghenion meddygol cymhleth ac/neu am eu bod yn anabl iawn, ac/neu am fod ganddynt lefelau uchel o anoddefgarwch synhwyraidd ar gyfer gweithgareddau *proprioperceptive* (nid ydynt yn medru ymdopi â bod mewn cerbyd, neu'n ei gael yn brofiad gofidus tu hwnt. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd 90 munud iddynt baratoi a dilyn eu harferion boreol i fod yn barod i gychwyn i'r ysgol, ac mae'r rhai sydd angen ffisiotherapi yn cymryd hyd yn oed mwy o amser. Ar hyn o bryd, maent yn teithio am oddeutu 30 munud i Uned Tŷ Meirion, sy'n golygu y gall eu boreau ddechrau mor gynnar â 6.30am er mwyn cyrraedd yr ysgol erbyn 9am. Byddai'r 30 munud ychwanegol i deithio i safle'r ysgol newydd ym Mhenrhyndeudraeth (sydd hanner ffordd rhwng y naill ben i Meirionnydd a Dwyfor) yn afresymol i rai o'r disgyblion hyn. Yn Nwyfor, bydd modd i ddisgyblion sydd â phroblemau cyffelyb, ac sy'n byw yn Aberdaron / Abersoch / Botwnnog ddefnyddio Uned y Traeth. Yn wahanol i ardal Meirionnydd, nid oes disgyblion PMLD (Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog) neu PMED (Anawsterau Corfforol a Meddygol) sydd ag anghenion meddygol/*proprioperceptive* ym mhellafoedd Dwyfor. Gan fod y

pellteroedd teithio i'r ddwy ysgol uwchradd arall agosaf yn ne'r sir yn 30 munud (ysgolion nad ydynt wedi'u haddasu'n llawn ar gyfer mynediad i'r anabl ar hyn o bryd), byddai cadw Tŷ Meirion yn sicrhau parhad mynediad disgyblion anabl (sydd angen mynediad i gwricwlwm prif ffrwd) i ysgol uwchradd brif ffrwd ym Meirionnydd.

b) Yn ogystal â lleihau amseroedd teithio i ddisgyblion PMED cymhleth de Meirionydd, mae Uned Tŷ Meirion yn parhau i fod yn rhan annatod o Gynllun Cydraddoldeb Strategol (Addasiadau Mynediad i'r Anabl i Ysgolion Prif Ffrwd) yr adran addysg, gan ei bod yn darparu'r cyfle i ddisgyblion cael eu hintegreiddio i ddosbarthiadau uwchradd priflif yn ddyddiol. Ar hyn o bryd mae disgyblion ysgol uwchradd Ysgol y Gader a Thŷ Meirion yn rhannu profiadau cwricwlwm megis cerddoriaeth, celf, dylunio a thechnoleg, gwasanaeth yr ysgol, mentergarwch ac ABaCh, gweithgareddau a chystadlaethau cymdeithasol a'r Urdd a phrofiadau allgyrsiol eraill. Gall y disgyblion hynny o Dŷ Meirion sy'n medru sefyll TGAU, Bac Cymru a chymwysterau lefel mynediad wneud hynny ochr yn ochr a'u cyfoedion yn yr ysgol brif ffrwd.

c) Bydd yr ysgol AAA newydd i Meirion Dwyfor yn darparu ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu yn bennaf, a bydd y disgyblion hynny nad oes ganddynt anableddau dysgu, ond sydd ag anableddau corfforol, yn parhau i dderbyn addysg mewn lleoliadau priflif cyn belled ag y bo modd, megis y cyfleuster a ddarperir gan Uned Tŷ Meirion.

d) Gwelwyd yr integreiddio hwn yn gryfder yn arolwg Estyn ar Ysgol y Gader yn 2010, ac mae'r holl ddata ymgynghori diweddar yn dangos fod y rhieni, y llywodraethwyr a'r gymuned leol yn dymuno gweld parhad y cyfleuster hwn. Cynhaliwyd yr arolwg Estyn diwethaf ar Ysgol y Gader, Dolgellau ym mis Rhagfyr 2010. Cyfeirir at Dŷ Meirion yn yr adroddiad fel a ganlyn:

> *'Mae disgyblion Uned Tŷ Meirion yn cael eu hintegreiddio i fywyd a gwaith yr ysgol mewn modd rhagorol. Mae'r ysgol yn monitro datblygiad addysgol a chymdeithasol y disgyblion hyn yn effeithiol iawn gan ddefnyddio dulliau arloesol.'*

## 4. CYFATHREBU

### 4.1 Cyfarfodydd

Yn dilyn y gwaith a gyflawnwyd gan y Gweithgor, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff ac aelodau cyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol a rhieni plant gydag AAA ym Meirionnydd a Dwyfor, yn ogystal â chyfres o diwrnodiau agored i ymgynghori â'r gymuned ehangach. Cynhaliwyd y rhain yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2013 ac roeddynt yn cynnwys:

- Cyfarfodydd gyda staff Ysgol Hafod Lon, Uned Tŷ Aran ac Uned Tŷ Meirion.
- Cyfarfodydd gyda chyrff llywodraethu Ysgol Hafod Lon, Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol y Gader, Dolgellau.
- Cyfarfodydd gyda rhieni ym Mhwllheli, Dolgellau, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.
- Diwrnodiau agored ym Mhwllheli, Dolgellau a Phorthmadog.

Prif ddiben y cyfarfodydd hyn oedd:

- Rhannu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth AAA ym Meirionnydd a Dwyfor.
- Egluro'r broses hyd yn hyn a gwaith y Gweithgor.
- Rhannu egin y cynlluniau ar gyfer y ganolfan AAA newydd gan gynnwys maint, adnoddau a lleoliad.
- Egluro'r gwaith sydd angen ei gwblhau i sicrhau buddsoddiad Llywodraeth Cymru.
- Derbyn barn bobl am yr opsiynau
- Rhannu'r amserlen darged ar gyfer cwblhau'r ffrydiau gwaith ac agor yr ysgol newydd.

Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r Cyngor ateb unrhyw gwestiynau a thrafod unrhyw bryderon oedd gan bobl yn ogystal â chasglu adborth ar gynlluniau'r ysgol a manteision yr opsiwn a ffafrir. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y bu i ni siarad â nhw (yn enwedig y rhieni) yn gadarnhaol iawn am y cynlluniau ac yn edrych ymlaen i weld yr ysgol newydd yn agor.

**4.2 Cyfathrebu ysgrifenedig**

Ym mis Gorffennaf, lluniwyd newyddlen ac fe'i hanfonwyd i bob ysgol ym Meirionnydd a Dwyfor, gan gynnwys ysgolion priflif, i gael ei dosbarthu i staff a rhieni plant AAA i egluro beth oedd amcan y prosiect a'r bwriad i ymgysylltu gyda staff, llywodraethwyr ysgol a rhieni am ganlyniad gwaith y Gweithgor.

Yn dilyn y cyfarfodydd gyda'r staff, y llywodraethwyr ysgol, y rhieni ac aelodau eraill y gymuned ym mis Hydref a mis Tachwedd, creuwyd newyddlen i rannu'r cwestiynau a godwyd a'r ymatebion a roddwyd yn ystod y digwyddiadau hynny. Rhannwyd y newyddlen gyda'r holl staff, y llywodraethwyr ysgol a'r rhieni a wahoddwyd i'r cyfarfodydd a'r dyddiau agored, p'un a oeddynt wedi mynychu ai peidio, i rannu'r adborth gyda'r holl brif fudd-ddeiliaid.

Rhoddwyd yr holl gyfathrebiadau a rannwyd cyn ac ar ôl y cyfarfodydd ar wefan Cyngor Gwynedd yn ogystal, a rhoddwyd y wybodaeth yn rhifyn mis Hydref Newyddion Gwynedd a diweddarwyd yr Aelodau Lleol drwy gyfrwng Rhaeadr, eu bwletin gwybodaeth rheolaidd.

Derbyniodd yr opsiwn a ffafrir, oedd yn seiliedig ar asesiad yn erbyn amcanion buddsoddi a ffactorau llwyddiant critigol (gweler atodiad 1) a gwblhawyd yn ystod cyfarfodydd y Gweithgor, gefnogaeth ysgubol gan mwyafrif y bobl yr ymgynghorwyd â hwy ac mae hynny'n rhoi hyder i ni yn ein dewis.

## 5. YR OPSIWN A FFAFRIR I YMGYNGHORI ARNO

Argymhellir ymgynghori ar y model i ddatblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth 6 gwely preswyl / egwyl fer, gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran a pharhau â'r ddarpariaeth bresennol yn Uned Tŷ Meirion. Hwn yw'r model sy'n cael ei ffafrio am y byddai'n ateb yr anghenion busnes a ganlyn:

a) Datblygu ysgol newydd mewn lleoliad canolog i blant sy'n byw yn ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor yng Ngwynedd. Y nod yw agor y ddarpariaeth newydd ym Mhenrhyndeudraeth fydd yn golygu y bydd yn rhaid i blant AAA o Feirionnydd a Dwyfor deithio pellteroedd tebyg i dderbyn eu haddysg.

b) Cynyddu llefydd ysgol AAA ym Meirionnydd a Dwyfor i gynnig darpariaeth i hyd at 100 o blant yn cynnwys y rhai hynny gydag anghenion addysgol arbennig mwy cymhleth a dwys, gan gynnwys awtistiaeth.

c) Datblygu ysgol fydd yn cyrraedd safon Ysgolion yr 21ain Ganrif, y safon cwricwlwm uchaf, gyda adnoddau therapiwtig ac adnoddau amgen sy'n diwallu anghenion plant sydd ag anghenion addysgol arbennig mwy cymhleth a dwys, gan gynnwys awtistiaeth.

d) Datblygu ysgol sydd â'r adnoddau angenrheidiol megis pwll hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd therapi adlamu arbenigol (*rebound therapy*), amgylchoedd dysgu allanol therapiwtig, cyfleusterau garddwriaethol a busnesau bychain i wireddu'r model a ffafrir.

e) Darparu cyfleuster 6 gwely preswyl / egwyl fer i blant a phobl ifanc gydag AAA yng Ngwynedd, ac i Awdurdodau Lleol eraill o bosib.

f) Datblygu cyfleuster fydd yn gwasanaethu fel canolfan i ddarparu gofod gweithio proffesiynol i weithwyr allweddol ymgysylltu'n llawn gyda rhieni, staff dysgu arbenigol a staff cefnogol yn rheolaidd.

Drwy wireddu'r amcanion rhagwelir y buddion canlynol ar gyfer plant gyda AAA:

- Bydd cynyddu lleoedd ysgol yn galluogi mwy o blant i fynychu ysgol AAA
- Byddai llai o angen i blant fynychu darpariaethau AAA tu allan i'r sir fyddai'n arwain at arbedion cost
- Byddai mwy o blant yn medru byw gartref
- Gwell amgylchedd dysgu i'r plant a'r bobl ifanc fyddai'n mynychu'r ysgol newydd. Mae adroddiad '*Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo o adnewyddwyd yn sylweddol*' gan Estyn yn nodi:

  *'bron ym mhob ysgol sydd ag adeilad newydd gwnaethom arolwg ohonynt, mae cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion wedi gwella.'*

  *'mae mwyafrif o ysgolion yn cynnig mwy o ddewisiadau i ddisgyblion nag yn eu hadeiladau blaenorol oherwydd bod ganddynt fwy o le a chyfleusterau gwell. Hefyd, mae'r ddarpariaeth a wna'r ysgol ar gyfer gweithgareddau cyn-ysgol ac ar ôl ysgol yn gwella'n sylweddol'*
- Mwy o le a gwell darpariaeth chwarae ar safle'r ysgol
- Mwy o le a gwell darpariaeth ar gyfer dysgu sgiliau bywyd a galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc
- Darpariaeth arbenigol ac adnoddau arbenigol fel pwll hydrotherapi ac ystafelloedd therapi

  ar gael ar safle'r ysgol newydd
- Cyfle i blant ddefnyddio'r cyfleusterau arbenigol y tu allan i oriau ysgol
- Ar sail y contractau ar hyn o bryd, byddai mwyafrif y plant yn teithio pellteroedd llai i'r ddarpariaeth newydd
- Byddai mwy o blant yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg drwy beidio gorfod mynychu ysgolion AAA tu allan i Wynedd
- Darpariaeth egwyl fer at ddefnydd plant Gwynedd gyfan all golygu llai o chwalfa deuluol, a felly llai o angen am rai leoliadau preswyl tymor hwy ar gyfer plant o'r teuluoedd hyn
- Bydd parhau a'r ddarpariaeth bresennol yn Nhŷ Meirion yn caniatáu mynediad i addysg uwchradd priflif i'r plant hynny fyddai'n ei chael yn anodd i deithio i'r ysgol newydd o dde'r sir
- Bydd plant yn derbyn cyfleoedd cyfartal ble bynnag mae nhw'n byw yn y sir

Yn ogystal a'r buddion i blant rhagwelir y buddion canlynol:

- Cyfle i fuddsoddi £12.4m mewn darpariaeth AAA newydd
- Gwell amgylchedd gweithio i staff
- Byddai'r cyfleuster newydd yn cyrraedd y safonau modern a ddisgwylir ar gyfer plant AAA
- Darpariaeth arbenigol ac adnoddau arbenigol ar gael ar safle'r ganolfan newydd
- Gofal preswyl ar gael

- Posibilrwydd o greu incwm drwy gynnig llefydd ysgol a gofal preswyl i blant o siroedd eraill sydd angen darpariaeth iaith Gymraeg
- Opsiwn i bobl ddefnyddio'r cyfleuster arbenigol y tu allan i oriau ysgol
- Cynnig cyfle i rieni ddewis i anfon eu plant i ysgol AAA arbenigol neu i integreiddio eu plant mewn ysgol uwchradd priflif yn cynnwys yr uned AAA yn ne'r Sir
- Peth lleihad mewn costau cynnal wrth gael gwared un uned ac Ysgol Hafod Lon bresennol

## 6. INCWM A COSTAU RHEDEG YR OPSIWN

6.1 Fel y gwelir o'r tabl isod rhagdybir bydd cost rhedeg yr opsiwn yma yn £2,820,860 a cludiant yn £424,008, sef cyfanswm gros o £3,244,868.

6.2 Mae hwn yn cymharu a cost gross presenol o £3,307,109 sy'n golygu ei fod yn £62,241 yn is.

6.3 Mae rhagdybiaeth wedi ei wneud fydd posiblrwydd denu'r incwm o £183,333 drwy Awdurdodau Lleol eraill yn talu am ddarpariaeth addysg a preswyl ar gyfer plant o'u siroedd. Ni ragwelir unrhyw incwm o Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr tuag at gostau preswyl y darpariaeth newydd.

6.4 Mae hwn yn cymharu ac incwm o £144,000 drwy gyfraniad gan Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr at ddarpariaeth preswyl all-sirol ar hyn o bryd.

6.5 Pe bydda'r holl incwm rhagdybiedig hyn yn cael ei wireddu mi fydda'n golygu lleihad o £101,574 i gymharu a'r cyfanswm net presennol.

| | cyllideb 2013/14 | opsiwn ffafredig | + / - | |
|---|---|---|---|---|
| Cost y ddarpariaeth | £2,859,390 | £2,820,860 | -£38,530 | cost is |
| Cost cludiant | £447,719 | £424,008 | -£23,711 | cost is |
| cyfanswm gross | £3,307,109 | £3,244,868 | **-£62,241** | cost is |
| incwm | £144,000 | £183,333 | £39,333 | cynnydd incwm posib |
| cyfanswm net | £3,163,109 | £3,061,535 | **-£101,574** | gwahaniaeth posib |

6.6 Mae rhaid pwysleisio yma fod risg ynghlwm a'r rhagdybiaethau incwm gan nad oes sicrwydd o incwm o Awdurdodau Lleol eraill. Er fod cwpl o Awdurdodau Lleol eraill wedi mynegi diddordeb yn y posiblrwydd o ddanfon plant i'r ysgol newydd fel disgyblion dyddiol neu preswyl yn y dyfodol does dim sicrwydd bydd hyn yn digwydd. Mae angen gwaith ychwanegol yma er mwyn ceisio cael ymrwymiad mwy cadarn gan Awdurdodau Lleol eraill.

6.7 Oherwydd y risgiau hyn mae posiblrwydd na fydd unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei ddenu. Os felly, fel y gwelir o'r tabl isod, mi fydd angen darganfod £31,759 ychwanegol i gyllideb presenol yr Awdurdod tuag at gostau'r ddarpariaeth AAA newydd.

| | cyllideb 2013/14 | opsiwn ffafredig | + / - | |
|---|---|---|---|---|
| Cost darpariaeth | £2,859,390 | £2,770,860 | -£88,530 | cost is |
| Cost cludiant | £447,719 | £424,008 | -£23,711 | Cost is |
| cyfanswm gross | £3,307,109 | £3,194,868 | **- £112,241** | cost is |
| incwm | £144,000 | £0 | - £144,000 | dim incwm posib |
| cyfanswm net | £3,163,109 | £3,194,868 | £31,759 | cost uwch posib |

* Mae cost darpariaeth yn is oherwydd na fydd angen darpariaeth preswyl 2 wely fydd yn golygu fydda costau rhedeg y darpariaeth preswyl / egwyl fer yn is.

6.8 Mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a Gwasanaeth Addysg wedi cytuno i ymrwymo i dalu unrhyw ddiffyg os na fydd yr incwm o Awdurdodau Lleol eraill yn ddigonol i gyfro'r costau rhedeg.

6.9 Er mwyn cael sefyllfa ble na fydd angen darganfod unrhyw arian ychwanegol mi fydda angen darganfod incwm o £81,759 sy'n gyfystyr a incwm fydd ychydig yn llai na cost gosod un gwely preswyl i Awdurdod Arall, fel y gwelir o'r tabl isod.

| | cyllideb 2013/14 | opsiwn ffafredig | + / - | |
|---|---|---|---|---|
| Cost y ddarpariaeth | £2,859,390 | £2,820,860 | -£38,530 | cost is |
| Cost cludiant | £447,719 | £424,008 | -£23,711 | cost is |
| cyfanswm gross | £3,307,109 | £3,244,868 | -£62,241 | cost is |
| incwm | £144,000 | £81,759 | £62,241 | Incwm llai posib |
| cyfanswm net | £3,163,109 | £3,163,109 | **-£0** | |

## 7. ASESIAD EFFAITH AR Y GYMUNED, YR IAITH GYMRAEG A CHYDRADDOLDEB

Yn unol a chanllawiau Dogfen Cod Statudol 006/2013 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* Lywodraeth Cymru cynhalwyd asesiad o pa effaith fydda newid yn y darpariaeth yn cael ar y gymuned, yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb **(Atodiad 4).** Fel y gwelir o'r adroddiad ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar yr ardaloedd ble mae'r ddarpariaeth bresennol a'r plant sy'n mynychu ac y byddai'r ddarpariaeth newydd yn creu cyfleoedd cadarnhaol i'r dyfodol.

7.1 **Cymunedol**

Yn dilyn dadansoddiad o'r defnydd cymunedol o'r darpariaeth presennol a'u cyfraniad i'w cymunedau ac asesu'r effaith fydda'r drefn newydd yn ei gael ar hyn, daethpwyd i'r casgliad na fydda unrhyw effaith negyddol ar yr ardaloedd ble mae'r ddarpariaeth bresennol a'r plant sy'n mynychu ac y byddai'r ddarpariaeth newydd yn creu cyfleoedd cadarnhaol i'r dyfodol.

Gan nad oes effaith negyddol wedi ei adnabod o ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran, ni ragwelir unrhyw angen am fesurau lliniaru sylweddol.

Wrth weithredu'r cynnig o sefydlu'r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i'r gymuned yn ehangach, yn enwedig rhai gyda anghenion arbennig, er mwyn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth newydd a'r adnoddau arbenigol.

7.2 **Yr Iaith Gymraeg**

Ni ragwelir fydda unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol yn cael effaith negyddol ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn yr ysgol/uned ble mae nhw wedi eu lleoli nac ar y gymuned leol gan fod mwyafrif y plant yn teithio o nifer o leoliadau gwasgaredig i dderbyn eu haddysg.

Y teimlad yw fydd sefydlu'r ysgol newydd yn creu mwy o gyfleoedd i atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn arbennig i'r rhai hynny fydda wedi mynychu'r unedau gan fydd cyfle iddynt gymysgu gyda mwy o blant drwy'r Gymraeg. Mi fydd mynychu'r ysgol newydd hefyd yn gyfle i'r plant hynny fydda'n gorfod mynd all-sirol (i ddarpariaeth di-Gymraeg), dan y drefn bresennol, i dderbyn addysg Gymraeg a chyfle i gymysgu gyda phlant drwy'r iaith Gymraeg.

Dylid nodi ei bod yn anodd ceisio mesur effaith bosibl trefniadaeth ysgolion ar y Gymraeg. Y prif bwyntiau cadarnhaol sy'n deillio o'r asesiad o effaith yw'r manteision i'r ddarpariaeth o ran addysg. Er na fydd categori presennol yr ysgol o ran iaith yn newid, mae'r cynnig yn gyfle i wella addysg a chryfhau addysg cyfrwng Cymraeg plant gyda AAA yn Meirionnydd a Dwyfor.

7.3 **Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb llawn o effaith gwahanol fodelau ac o ganlyniad rydym yn hyderus bydd trefniadau mewn lle i sicrhau fod y cynnig yn cyd-fynd ac unrhyw bolisïau perthnasol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu yn digwydd. Mae angen pwysleisio mai ysgol AAA sydd dan sylw ac felly bod cydraddoldeb anabledd yn rhan gwbl allweddol o'r holl ystyriaethau ac mai'r nod yn y pendraw yw gwella gwasanaeth i ddisgyblion AAA.

## 8. LLEOLIAD YR YSGOL NEWYDD

8.1 Fel nodwyd yn Adroddiad Cabinet ar 9 Hydref 2012 *nid yw'r ddarpariaeth bresennol wedi ei lleoli'n ganolog ar gyfer yr ardal mae'n ei gwasanaethu, ac nid yw'r cyfleusterau chwaith ddim yn cwrdd ag anghenion addysgol modern.*

8.2 Yn ychwanegol i hyn nodwyd yn asesiad y safle presennol fod Ysgol Hafod Lon yn gwbl anaddas ar gyfer unrhyw ddatblygiad oherwydd maint y safle. Mae adroddiad addasrwydd (2.7) yn **Atodiad 1** yn nodi byddai disgwyliad rhesymol i Ysgol Hafod Lon, fel ysgol arbennig unigol ar gyfer 49-50 o ddisgyblion, fod ag arwynebedd llawr sydd deirgwaith yn fwy na'r hyn ydyw, ac ar safle mwy.

8.3 Oherwydd hyn roedd cydnabyddiaeth y byddai angen adeiladu ysgol newydd ar safle newydd i ymdrin â'r angen cynyddol am lefydd ysgol AAA yn yr ardal, pe bai yna benderfyniad i ddatblygu ysgol newydd, penderfynwyd y dylid adnabod safle priodol.

8.4 Adnabuwyd y byddai angen i unrhyw ddarpariaeth newydd fod wedi'i lleoli yn ganolog i Feirionnydd a Dwyfor ac o'r herwydd penderfynwyd chwilio am safleoedd priodol yn ardaloedd Porthmadog a Phenrhyndeudraeth.

8.5 Yn dilyn adnabod nifer o safleoedd a chynnal gwerthusiad ohonynt (gweler **Atodiad 3**) daethwyd i'r penderfyniad mae safle Parc Eryri, Penrhyndeudraeth fydda'r opsiwn orau.

8.6 Argymhellir felly y dylid ymgynghori ar y bwriad i ddatblygu ysgol AAA ar safle Parc Eryri, Penrhyndeudraeth fel yr opsiwn gorau i sicrhau ysgol fodern sy'n addas i'w ddiben ac yn gynaliadwy ac wedi'i lleoli'n ganolog i Feirionnydd a Dwyfor.

8.7 Rhagwelir y bydd y gost o ddatblygu ysgol newydd ac uned breswyl / egwyl fer ar y safle yn oddeutu £12.4m a bydd angen cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru i sicrhau 50% o'r buddsoddiad hwn. Mae cam cyntaf yr achos busnes eisoes wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## 9. CANLYNIADAU'R ARGYMHELLIAD

9.1 Golyga'r argymhelliad hwn y byddai Ysgol Hafod Lon presennol ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau yn cael eu ail-leoli fel ysgol AAA newydd ym Mharc Eryri, Penrhyndeudraeth.

9.2 Ar ôl cynnal asesiad effaith ar y gymuned, yr iaith ac ar gydraddoldeb (**Atodiad 3**) ni ragwelir y bydd yna unrhyw effaith negyddol yn sgil symud Ysgol Hafod Lon presennol nac Uned Tŷ Aran.

9.3 Fodd bynnag, i leddfu effaith cau ysgol mewn unrhyw ardal, os oes diddordeb yn lleol mewn datblygu'r safleoedd hyn er budd y gymuned, fe wnaiff y Cyngor ofyn i'r Swyddog Adfywio gynorthwyo'r gymuned i ddatblygu unrhyw syniadau ar gyfer defnyddio'r tir a'r adeiladau a ddaw'n wag yn sgil ad-drefnu ysgolion. Gwneir hyn yn unol â'r polisi a'r protocol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2010.

### 9.4 Ystyriaethau Staffio

9.4.1 Gan mae symud yr ysgol/uned bresennol i safle newydd byddwn yn ei wneud mi fydd y staff presennol hefyd yn cael y cynnig i symud. Rydym eisoes yn ymgynghori'n uniongyrchol gyda staff a'r undebau a byddwn yn parhau i wneud hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ac yn dilyn unrhyw benderfyniadau sy'n deillio o'r broses hon. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio cynhwysfawr ar y cyd â'r undebau llafur a'r penaethiaid ysgol. Bydd cyfathrebu'n glir ac yn agored gyda staff yn ran ganolog o unrhyw gynigion.

9.4.2 Wrth ddatblygu'r ysgol newydd, bydd angen i'r Corff Llywodraethu dderbyn y cyfrifoldeb am ddatblygu strwythur staffio sydd eu hangen i'r ysgol. Bydd Adran Bersonél y Cyngor ar gael i gynghori a helpu'r Corff Llywodraethu gyda'r gwaith a gyda unrhyw benodiadau newydd fydd angen.

### 9.5 Sefydlu ysgol newydd

9.5.1 Wrth weithio i agor yr ysgol newydd mi fydd Corff Llywodraethol presennol Ysgol Hafod Lon yn gyfrifol am gytuno ar gyfansoddiad yr ysgol, y strwythur staffio a'r recriwtio.

9.5.2 Bydd cyllideb yr ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion fydd yn mynychu'r ysgol yn unol â'r fformiwla cyllido ysgolion sy'n cydymffurfio ag Adran 52 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 2013.

## 10. CAMAU NESAF

a. Noder bod y camau gweithredu hyd yn hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth er mwyn llunio'r cynigion cychwynnol.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn ei wneud yn glir bod yr achos dros y newid sydd yn cael ei argymell yn un clir a synhwyrol ac mae'r Pennaeth Cyllid yn nodi'r ystyriaethau ariannol yn glir yn ei sylwadau. Nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu at yr adroddiad heblaw i nodi fy nghefnogaeth i'r argymhelliad.

**Swyddog Monitro:**
Cafwyd mewnbwn cyfreithiol i'r trafodaethau wrth ddatblygu'r cynigion ac rwy'n fodlon a'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb a chyfreithlondeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Nodaf mai pwrpas yr adroddiad gerbron yw sicrhau penderfyniad y Cabinet i gynnal cyfnod ymgynghori statudol er mwyn datblygu ysgol arbennig newydd ym Mhenrhyndeudraeth gyda darpariaeth breswyl ac egwyl fer. Rwy'n cefnogi'r bwriad i ad-drefnu ysgolion mewn modd teg a rhesymegol, er gwaetha'r her o ymdrechu i gyflawni'r amcanion yma mewn cyd-destun ariannol hynod heriol. Gyda £6.2m o arian grant cyfalaf yn y fantol, mae'n amlwg byddai risgiau wrth oedi ac mae'r adroddiad yn adnabod rhai buddion refeniw posib wrth symud ymlaen.

O ran oblygiadau cyfalaf y cynllun, nodaf fod rhan 2.2 o'r adroddiad yn crybwyll fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo'r cam cyntaf o'r achos busnes ar gyfer denu grant o'u "Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif" - h.y. mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo'r "achos busnes strategol amlinellol" roedd yn cynnwys yr achos dros newid, anghenion busnes, a'r gwerthusiad opsiynau. Ymhellach, cadarnhaf fod Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r arian cyfatebol angenrheidiol - h.y. mae'r Cyngor wedi neilltuo £6.2m, sef 50% o'r costau cyfalaf, ar gyfer gweithredu'r cynllun yma.

O ran oblygiadau ariannol parhaol (cyllideb refeniw blynyddol) sy'n deillio o'r cynllun a ffafrir, mae rhan 6.5 o'r adroddiad yn dangos sut gallasai'r cynllun arwain at arbediad blynyddol "posib" o £101,574. Wrth gwrs, mae hynny i'w groesawu yn yr hinsawdd ariannol bresennol, er dylid nodi'r risg (sydd wedi'i adnabod yn rhan 6.6 a 6.7 o'r adroddiad) gan nad oes sicrwydd bydd modd denu'r incwm all-sirol perthnasol i'r Cyngor. Yng nghyd-destun y cyfle a'r risg yma, deallaf fod yr Adran Addysg ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ystyried y cynllun yn drylwyr o fewn eu strategaeth arbedion, a'u bod yn glir mai'r Adranau hyn fydd yn gyfrifol am ganfod unrhyw ddiffyg yng nghostau rhedeg yr ysgol newydd.

**Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol:**
Cefnogaf y cynnig gerbron ar gyfer argymhell cychwyn cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig o ddatblygu ysgol addysg anghenion arbennig newydd ym Mhenrhyndeudraeth a fyddai'n cynnwys darpariaeth preswyl ac egwyl fer. Byddai darpariaeth breswyl ac egwyl fer lleol fel rhan o'r datblygiad yn sicr o wella canlyniadau i blant sydd ar hyn o bryd yn cael eu lleoli mewn darpariaethau tu allan i'r Sir ac yn cynnyddu'r gallu i gynnig egwyl fer i gefnogi teuluoedd yn lleol.

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Sefyllfa gyfredol ac achos am newid |
| Atodiad 2 | Asesiad Opsiynau |
| Atodiad 3 | Asesiad Safleoedd |
| Atodiad 4 | Asesiad effaith ar y gymuned, yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb |